

EITEM RHIF 4

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	15 Gorffennaf 2020
TEITL	ADRODDIAD ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2019/20
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb, trosglwyddiadau arian, a'r arian a gariwyd ymlaen o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad.ii. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.iii. Rhoi ystyriaeth i'r perfformiad adrannol gyda golwg ar reolaeth gyllidebol.iv. Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r cronfeydd wrth gefn.

1. CRYNODEB

- 1.1 Cynhaliwyd cyllid grant sylfaenol y Parc Cenedlaethol gan Llywodraeth Cymru yn 2019/20 ar yr un lefel â 2018/19.
- 1.2 Dyrannwyd cyfanswm o £1,858,540 o arian grant cyfalaf "un tro" ychwanegol i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020 gyda'r amod fod y cyllid hwn un ai'n cael ei wario neu o leiaf ddechrau'i ymrwymo cyn 31/3/2020. Gweler atodiad 3 am y symiau grant sy'n weddill ar 31/3/2020. Gan fod y grant wedi ei ddynodi ar gyfer 2019/20 fe ddelir ei weddill yng nghronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ac nid o dan credydwy'r ym mantolen yr Awdurdod.
- 1.4 Mae sefyllfa ariannol derfynol y gwasanaethau am 2019/20 yn cadarnhau fod yr Awdurdod wedi llwyddo unwaith eto i gadw o fewn y cyfyngiadau ariannol gyda than-wariant net o £350,882 (gweler atodiad 2).
- 1.5 Gan fod amgylchiadau'r pandemig COVID-19 yn amharu gymaint ar waith awdurdodau lleol, mae estyniad amser un-tro wedi ei ganiatau ar gyfer cwblhau ac awdurdodi'r datganiad cyfrifon blynyddol. Felly, gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2019/20 (a throsglwyddiadau ariannol perthnasol), fel rhan o'r drefn cynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol (sydd i'w hardystio gan y Prif Swyddog Cyllid erbyn 31 Awst, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod erbyn 30 Tachwedd 2020).

2. CYFLWYNIAD

- 2.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cymhariaeth, ar lefel maes gwasanaeth, rhwng y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar eu cyfer, a'r gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer 2019/20.
- 2.2 Cyfanswm gwariant net y flwyddyn oedd £2,616,329 sef £3,999,570 o dan y gyllideb net ddiwygiedig o £6,615,899. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys effaith swm sylweddol o grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw. Cyfanswm y gwariant cyfalaf gros ar gyfer y flwyddyn oedd £1,416,764.
- 2.3 Gweler o'r tabl o dan 3.2 fod £3,999,570 cyn trosglwyddiadau net gwerth £3,294,522 i gronfeydd penodol wrth gefn, a hefyd fod llithriadau ac ymrwymadau (i 2020/21) o rai o ddyraniadau cyllideb 2019/20 gwerth £354,166. (Mae'r Tîm Rheoli wedi rhoi cyfarwyddyd fod yr arian hwn ddim i'w wario, hyd nes fod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn gliriach.) Mae hyn yn dod â'r balans sy'n weddill ar gael i'w ail-glustnodi i **£350,882**.
- 2.4 Dylid nodi y gall rhai ffigyrau yn yr adroddiad hwn gael eu haddasu yn ystod y drefn o gau'r cyfrifon (rhwng nawr a 31/8/2020) a bod yr holl ffigyrau yn ddarostyngedig i archwiliad (rhwng rŵan a 31/11/2020). Adroddir ymhellach i'r Awdurdod ar unrhyw addasiadau sylweddol a wneir yn y datganiad o gyfrifon ac yn dilyn cwblhau'r archwiliad arnynt.

3. CRYNODEB REFENIW TERFYNOL 2019/20

	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosgl.	Cyllideb Net Ddiwygiedig	Gwir Wariant	Dan / (Dros)
	£	£	£	£	£
Maes Gwasanaeth					
Cynllunio a Rheolaeth Tir	2,381,940	-12,553	2,369,387	991,037	1,378,350
Corfforaethol	3,053,510	537,989	3,591,499	3,100,998	490,501
Balansau	10,000	-10,000	0	0	0
	5,445,450	515,436	5,960,886	4,092,035	1,868,851
Llog a Enillwyd	-8,000	-21,200	-29,200	-48,077	18,877
Ariannu Cyfalaf o refeniw	998,485	265,208	1,263,693	-848,149	2,111,842
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-579,480	0	-579,480	-579,480	0
CYFANSWM	5,856,455	759,444	6,615,899	2,616,329	3,999,570

3.1 Cyllideb Net ar gyfer 2019/20

Mae'r cynnydd o £759,444 yn y gyllideb refeniw sylfaenol net o £5,856,455 i £6,615,899 yn cynrychioli yr ychwanegiadau canlynol :

- £6,500 llithriad 2017/18
- £402,423 llithriad 2018/19
- £54,183 o'r gronfa arian cyfatebol (yn cynnwys addasiad o -£1,380 ar y symiau a gynhwyswyd yn y gyllideb wreiddiol).
- £71,000 o'r gronfa rheoli asedau
- £268,692 o'r gronfa prosiectau
- £181,210 o'r gronfa grantiau refeniw
- £14,415 o'r gronfa grantiau cyfalaf

- -£19,728 addasiad net ar y symiau o'r gronfa grantiau cyfalaf a gynhwyswyd yn y gyllideb wreiddiol.
- £23,250 cyfraniad o'r gronfa derbyniadau cyfalaf at bryniant car trydan at ddefnydd Cynllunio.
- -£100,000 cyfraniad Cronfa Partneriaethau Eryri at gynllun y Carneddau
- £4,999 grant CNC a dderbyniwyd yn 2018/19 at ddefnydd gwaith llwybrau
- -£47,500 i gyllido cyflogaeth y Swyddog Partneriaethau yn y dyfodol
- -£100,000 ad-dalu'r cyllid ar gyfer gwaith boileri'r Pencadlys i'r gronfa derbyniadau cyfalaf oherwydd fod grant wedi ei dderbyn ar gyfer y diben hwn.

Mae'r Awdurdod eisoes wedi ei hysbysu o'r uchod heblaw am y symudiad olaf o -£100,000.

Yn Atodiad 1, ceir manylion pellach ynghylch y trosglwyddiadau yr adroddwyd amdanynt i'r Awdurdod yn Rhagfyr (gan na chynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym Mawrth), a'r rhai sydd wedi'u gweithredu oddi ar hynny.

3.2 Trosglwyddiadau o ac i Gronfeydd Wrth Gefn a Chostau penodol Eraill

Mae balans o £3,999,570 cyn trosglwyddiadau o ac i'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir dadansoddiad o'r trosglwyddiadau yn y tabl isod, ynghyd â chostau penodol eraill:

	£	£	£
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2019/20			3,999,570
<u>Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn</u>			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Caer Gai	8,182		
Ysgwrn (tu allan l'r cynllun grant CDL)	18,162		
Cyfoeth Ein Corsydd	<u>1,189</u>	27,533	
Corfforaethol			
Cynlluniau grant Llywodraeth Cymru (cyfalaf)	<u>79,284</u>	79,284	
<u>Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn</u>			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Prosiectau Treftadaeth Diwylliannol	-50,200		
Ysgwrn (cynllun grant)	-2,482		
Cynllun Treftadaeth Tref Dolgellau - arian cyfatebol APCE	-89,973		
Cynlluniau grant Llywodraeth Cymru (cyfalaf)	-1,079,629		
Galwad Agored (cyfraniad APCE)	-27,278		
Cynllun ENRaW	-14,894		
Awyr Dywyll	-44,441		
Cynllun grant SMS - Mawndiroedd Cymru	-12,097		
Cynllun grant Grid Cenedlaethol - Maentwrog (2)	-138,145		
Cynllun grant SMS - Uwch Gwyrfai	-3,330		
Cynllun grant SMS - Afon Eden	-16,119		
Coedwigoedd Glaw Celtaidd (cynllun grant LIFE)	-812,377		
Archaeoleg	-11,048		
Carneddau - cyfraniad APCE	-8,169		
Cader idris - grantiau BMC a CNC	-70,000		
Arian Adran 106 Cynllunio	-10,000		
Cynlluniau grant Llywodraeth Cymru (refeniw)	<u>-25,402</u>	-2,415,584	
Corfforaethol			
Gwerthiant Maes Newyddion	-34,218		
Cynlluniau grant TAIS	-18,998		
Cynlluniau grant Llywodraeth Cymru (cyfalaf)	-744,542		
Safle Gwe newydd	-14,060		
Cyllid Cronfa Partneriaethau Eryri	-75,933		
Partneriaeth y Wyddfa - grant Cyngor Gwynedd	-8,000		
Cynlluniau grant Llywodraeth Cymru (refeniw)	<u>-90,004</u>	-985,755	
			-3,294,522
Llithriant a Chostau Eraill (gweler atodiad 4)	<u>-354,166</u>		-354,166
Balans ar gael i'w ailddyrranu			<u>350,882</u>

3.3 Alldro Adrannol

Pennwyd trosglwyddiadau hanfodol o ac i gronfeydd wrth gefn o fewn rhaglenni penodol neu wedi'u neilltuo ym mhwynt 3.2 eisoes.

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa pob lefel cyfarwyddiaeth ar ôl cymryd yr eitemau wedi'u neilltuo a'r rhai penodol a ddygwyd ymlaen o fewn cyllideb 2019-20 i ystyriaeth:

CYFARWYDDIAETH	Cyllideb Net Ddiwygiedig £	Gwir Wariant £	Dan / (Dros) £	Ymrwymiad £	Dan / (Dros) £
Cynllunio a Rheolaeth Tir	2,369,387	991,037	1,378,350	1,185,578	192,772
Corfforaethol	3,591,499	3,100,998	490,501	313,786	176,715
IS-GYFANSWM	5,960,886	4,092,035	1,868,851	1,499,364	369,487
Llog a Enillwyd	-29,200	-48,077	18,877	0	18,877
Ariannu Cyfalaf o reffeniw	1,263,693	-848,149	2,111,842	2,149,324	-37,482
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-579,480	-579,480	0	0	0
CYFANSWM	6,615,899	2,616,329	3,999,570	3,648,688	350,882

Cyfanswm yr incwm ychwanegol a'r tanwariant, ar ôl cymryd i ystyriaeth y trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn, oedd **£350,882**.

3.4 Dadansoddiad Manwl

Mae dadansoddiad manylach fesul gwasanaeth o'r gwariant a'r ymrwymadau ar gyfer 2019/20 yn Atodiad 2.

3.5 Amrywiadau Sylweddol

Y gwasanaethau ag amrywiadau dros £10,000, yn y ffigwr £350,882 sy'n gyfuniad o incwm ychwanegol net a thanwariant yw:

Tanwariant

Cynllunio a Rheoli Tir

- **Cadwraeth, Coed ac Amaeth (£55,478)** – arbediad gan fwyaf ar gyflogaeth gydag un swydd wag gydol y flwyddyn ac arbediad ar ostwng oriau swydd arall.
- **Treftadaeth Diwylliannol (£14,823)** – arbediad ar gyflogaeth Swyddog Prosiect.
- **Archaeoleg (£13,806)** – swydd wedi bod yn wag rhan fwyaf o'r flwyddyn.
- **Cynllunio (£42,054)** – swydd Pennaeth yn wag am rhan fwyaf o'r flwyddyn a'r arbediad yn talu am gostau prynu gwasanaeth i mewn a'r diffyg mewn incwm ffioedd cynllunio (£17,402)
- **Mynediad Cyhoeddus (£16,220)** – arbedion ar sawl llinell cyllideb.
- **Wardeiniaid Cyffredinol (£30,064)** – cynnwys incwm gwerthiant (cyfnewid rhannol) yn erbyn offer newydd a brynwyd gyda chyllid grant cyfalaf Llywodraeth Cymru.
- **Wardeiniaid y Gogledd (£13,696)** – gweddill cyllideb swydd yr Uwch Warden sydd wedi bod yn wag trwy'r flwyddyn.

Corfforaethol

- **Ymgysylltu (£12,803)** – arbedion mewn llinellau cyllideb amrywiol yn cynnwys cyflogaeth, costau teithio a chronfa trafndiaeth ysgolion.
- **Canolfannau Gwybodaeth (£18,795)** – arbediad ar linell cyllideb dehongli a chostau eiddo.
- **Llyn Tegid (£16,175)** – incwm ychwanegol i'r gyllideb o ffioedd parcio.
- **Meysydd Parcio (£101,938)** – incwm ychwanegol.
- **Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau (£65,023)** – gweddill heb ei ymrwymo allan o linell cyllideb y Gronfa Gomisinyu.

- **Cefnogaeth Awdurdod (£11,188)** – arbediad £11,895 ar linell cyllideb tanysgrifiadau gan fwyaf oherwydd nad yw'r Awdurdod bellach yn talu tanysgrifiad i "Barciau Cenedlaethol y DU".
- **Rheolaeth Corfforaethol (£97,877)** – cynnwys llinell prosiectau "un tro" (£69,000) ac ad-daliad am wasanaethau canolog allan o'r cynllun RhMMAMG (£17,691)
- **Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer (£15,162)** – arbedion mewn llinellau cyllideb dillad amddiffynol, offer, ffonau a chynnal a chadw.
- **Systemau Gwybodaeth (£19,458)** – arbedion mewn llinellau cyllideb refeniw i gyllido gor-wariant (£12,424) ar gyllideb cyfalaf Systemau Gwybodaeth.
- **Cyfieithu (£23,191)** – arbediad net rhwng cyllideb cyflogaeth un swydd a chost prynu gwasanaeth cyfieithydd allannol.
- **Pencadlys (£12,220)** - prif arbediad ar linell cyllideb "cynnal a chadw".
- **Cyfleusterau Ymwelwyr (£14,520)** – gan fwyaf oherwydd fod rhent Hafod Eryri yn uwch na'r gyllideb.

Gorwariant

Corfforaethol

- **Plas Tan y Bwlch (£160,370)** – yn bennaf oherwydd diffyg yn y llinell cyllideb incwm ffioedd cyrsiau o £198,140.
- **Cyfreithiol (£57,800)** – effaith costau prynu gwasanaeth i mewn i ddelio gydag achosion cynllunio Hillside a Llanbedr
- **Eiddo (£22,424)** – oherwydd costau ychwanegol ar brynu gwasanaeth i mewn a gwaith cynnal a chadw ymatebol.

3.6 Newidiadau ers yr adroddwyd yn flaenorol

'Roedd yr adroddiad diwethaf ar y gyllideb a roddwyd gerbron yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2019 yn nodi alldro tebygol o ddiffyg £102,000 i gymharu gyda'r gwir alldro o warged o £350,882.

Y prif reswm am y gwahaniaeth o £452,882 ydy fod nifer o swyddogion heb roi ceisiadau i mewn am gario arian trosodd oherwydd sefyllfa'r Awdurdod parthed effaith COVID-19 a'r ansicrwydd o gymorth ariannol gan Llywodraeth Cymru.

3.7 Targedau ar gyfer gwasanaethau penodol

Yn sgîl toriadau cyllideb mewn blynyddoedd diweddar a'r strategaethau ariannol a gyflwynwyd i ymdopi â hwy, adolygwyd y gwasanaethau Canolfannau Gwybodaeth a Phlas Tan y Bwlch a chytuno targedau penodol ar eu cyfer.

Canolfannau Gwybodaeth

Y targed gwaelodlin a osodwyd ar gyfer y Canolfannau yw **£128,680** (adroddiad Awdurdod Rhagfyr 2016 ac effaith ail-strwythuro).

Mae alldro'r Canolfannau Gwybodaeth am 2019/20 yn **£142,085** (yn cynnwys £5,940 cost cyfalaf). 'Roedd yr alldro cyfatebol am 2018/19 yn £141,360 (yn cynnwys £5,740 cost cyfalaf sy'n gost heb fod yn arian).

Plas Tan y Bwlch

Mae'r Awdurdod wedi derbyn y nôd i'r gwasanaeth hwn fod yn ddi-gost erbyn 2021/22 (gan eithro dyweder gwerth £50,000 o gost gwasanaethau canolog perthnasol).

Mabwysiadwyd yr egwyddor hwn yng nghyfarfod Bwrdd y Plas (Tachwedd 2016) ac yna ymgorfforwyd hyn yn y targedau ariannol ar gyfer Plas Tan y Bwlch.

Mae alldro'r gwasanaeth am 2019/20 yn dangos diffyg yn erbyn y gyllideb o £160,370. Y ffigur cyfatebol ar gyfer 2018/19 oedd diffyg o £42,852.

'Roedd diffyg yn erbyn cyllideb ar gyfer incwm llogi cyrsiau a llety yn £213,140 (ffigur cyfatebol 2018/19 yn £98,947). Gan dderbyn fod effaith COVID-19 ar alldro 2019/20, roedd gostyngiad yn yr incwm ffioedd dros y flwyddyn yn £72,293 gyda £28,710 o hwn yn Chwefror a Mawrth 2020.

4. CRONFEYDD WRTH GEFN

4.1 CRYNODEB

Gweler isod grynoded o'r cronfeydd defnyddiadwy gyda'u balansau cyfredol.

Enw'r Gronfa	Balans 31/3/2020 (£)
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	-163,791
Cronfa Adran 106	-240,000
Cronfa Grantiau Refeniw	-1,716,636
Grantiau Cyfalaf dderbyniwyd ymlaen llaw	-2,253,979
Cronfa Rheoli Asedau	-233,655
Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus (Cynllunio)	-225,000
Cronfa Arian Cyfatebol	-1,073,182
Cronfa - arian a gariwyd trosodd	-372,506
Cronfa Prosiectau	-404,583
Cronfa Is-adeiledd y Wyddfa	-56,303
Cronfa Risgiau Penodol	-424,160
Cronfa Gwytnwch Staff	-120,000
Cronfa Risgiau Masnachol	-100,000
Cronfa Gyffredinol	-697,956
	-8,081,751

4.2 Clustnodi Balans Tanwariant Ac Incwm Ychwanegol

Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 11 Rhagfyr 2019, ac ymhellach ar 5 Chwefror 2020 rhoddwyd ystyriaeth i lefelau cyfredol darbodus ar gyfer y prif gronfeydd. Mae balans o £350,882 o danwariant ac incwm ychwanegol o 2019/20 ac mae ar gael i'w ail-glustnodi ar sail un-tro. Yn sgîl effaith y pandemig COVID-19 ar weithgareddau ac incwm masnachol yr Awdurdod, ychwanegir y gwarged at gronfa Balansau Cyffredinol yr Awdurdod.

4.3 Cronfa Derbyniadau Cyfalaf

'Roedd y balans ar y gronfa hon ar 31/3/2019 yn £152,823. Mae'n rhaid i'r Awdurdod ddefnyddio'r arian hwn ar gyfer cyllido gwariant cyfalaf, a gellir ei ddefnyddio i gyfrannu at gostau perthnasol i werthiant asedau. Yn ystod y flwyddyn prynwyd cerbyd trydan (£23,250) a gwerthwyd safle Maes Newyddion (£34,218 net). Balans y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ar 31/3/2020 yw **£163,791**.

4.4 Cronfa Arian Adran 106

'Roedd y balans ar y gronfa hon ar 31/3/2019 yn £230,000. Yn ystod 2019/20 derbyniwyd swm o £10,000 sy'n gadael balans y gronfa yn **£240,000**. Mae'r cyllid hwn wedi ei glustnodi ar gyfer dibenion tai fforddiadwy.

4.5 Cronfa Grantiau Refeniw

Mae'r gronfa hon yn dal balans grantiau refeniw sydd heb eu defnyddio, derbyniwyd at ddefnydd yn y flwyddyn ariannol ac yn cael eu cydnabod fel incwm yn y flwyddyn ariannol honno, ond eu trosglwyddo i gronfa ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Ar 31/3/2019 'roedd gan y gronfa falans o £845,017. Yn ystod 2019/20 derbyniwyd a defnyddiwyd grantiau yn rhoi cynnydd net o £871,619 yn y gronfa yn rhoi balans o **£1,716,636** ar 31/3/2020.

4.6 Cronfa Grantiau Cyfalaf

Mae'r gronfa hon wedi ei chreu ar yr un cysail â'r Gronfa Grantiau Refeniw. Ar 31/3/2019 'roedd balans y gronfa yn £1,189,806. Yn ystod 2019/20 defnyddiwyd a derbyniwyd grantiau yn rhoi cynnydd net o £1,064,173 yn y gronfa yn rhoi balans ar 31/3/2020 o **£2,253,979**.

4.7 Cronfa Rheoli Asedau

Mae'r gronfa hon yn cyllido costau eiddo sydd tu hwnt i gyllideb arferol blynyddol y Gwasanaeth Eiddo. Balans y Gronfa Rheoli Asedau ar 31/3/2019 oedd £304,655. Defnyddiwyd £71,000 yn ystod y flwyddyn yn gadael **£233,655** ar 31/3/2020.

4.8 Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus

Ar 31/3/2019, roedd gan yr Awdurdod £225,000 yn y Gronfa Ymchwiliad Cyhoeddus, er mwyn cwrdd â'r costau:

- sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad i'r Cynllun Datblygu (Cynllun Datblygu Lleol), sydd yn ei hanfod yn anodd ei ragweld.
- sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymchwiliad sylweddol arall (Cynllunio)
- a all gael eu dyfarnu yn erbyn yr Awdurdod yn sgil methiant mewn apêl cynllunio.

Ni fu defnydd o'r gronfa hon yn ystod 2019/20 ac felly'r balans yn aros **yn £225,000** ar 31/3/2020.

4.9 Cronfa Arian Cyfatebol

Ar 1/4/2019 'roedd £803,552 yn y gronfa hon. Yn ystod y flwyddyn bu ychwanegiad net o £269,630 yn gadael **£1,073,182** ar 31/3/2020. Mae'r arian wedi ei glustnodi fel a ganlyn:

Prosiect	(£)
Rheolaeth Rhododendron	181,970
Cylchdaith Eryri	115,667
Yr Ysgwrn	130,707
Treftadaeth Tirlun Dolgellau	157,757
BMC "Trwsio'n Mynyddoedd"	117,259
Cynlluniau grant TAIS	18,998
Awyr Dywyll	22,304
Cynllun ENRaW	14,894
Darpariaeth ar gyfer costau terfynnu prosiectau	70,136
Darpariaeth ar gyfer diffyg cyllid gan bartneriaid	32,000
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	118,649
Cynlluniau grant SMS	40,987
Caer Gai	10,107
Cwm Ciprwth	6,800
Cyfoeth Ein Corsydd	4,497
Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE)	30,450
Cyfanswm	1,073,182

4.10 Cronfa Prosiectau

Mae'r gronfa hon at ddiben cyllido prosiectau penodol gan yr Awdurdod. 'Roedd balans o £392,502 ar 31/3/2019 sydd wedi cynyddu bellach i **£404,583** ac sy'n cynrhychioli :

Prosiect	(£)
Cronfa Partneriaethau Eryri	75,933
Swyddog Prosiectau (Treftadaeth Ddiwylliannol)	122,196
Swyddog Partneriaeth y Wyddfa	47,500
Arian Ewyllys at ddefnydd "Maniffesto Ieuenctid"	92,954
Safle Gwe Newydd	66,000
Cyfanswm	404,583

4.11 Cronfa Is-adeiledd y Wyddfa

'Roedd balans y gronfa ar 31/3/2019 yn £56,303. Ni fu unrhyw newid yn ystod 2019/20 yn gadael balans o **£56,303** ar 31/3/2020.

4.12 Cronfa Risgiau Penodol

Saif balans y gronfa wrth gefn yn £323,915 ar 31/3/2019. Yn ystod 2019/20 trosglwyddwyd gwarged cyllideb 2019/20 sef £100,245 i mewn, yn rhoi **£424,160** ar 31/3/2020. Dylid nodi yn y cyd-destun hwn fod ansicrwydd ynglŷn â setliadau grant Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Cynigir fod y balans diwygiedig yn cael ei gadw ar gyfer cyllido costau un-tro prosiectau sy'n cyflawni arbedion parhaol (gan gynnwys costau diswyddo, pontio a chynlluniau "buddsoddi er mwyn arbed").

4.13 Cronfa Gwynwch Staff

Cymeradwywyd y gronfa hon yn Chwefror 2019. Ni fu defnydd yn ystod 2019/20 ac mae'r balans cyfredol yn **£120,000**.

4.14 Cronfa Risgiau Masnachol

Cymeradwywyd y gronfa hon yn Chwefror 2019. Ni fu defnydd yn ystod 2019/20 ac mae'r balans cyfredol yn **£100,000**.

4.15 Balansau Cyffredinol

'Roedd Balansau Cyffredinol Refeniw yr Awdurdod ar 31/3/2019 yn £347,074. 'Rydym mewn sefyllfa digynsail gyda'r pandemig COVID-19, a'r Awdurdod yn wynebu colledion incwm sylweddol heb ymrwymiad o gymorth gan Llywodraeth Cymru. Yng ngwyneb hyn ychwanegir gwarged alldro 2019/20, sef £350,882, i'r gronfa sy'n dod â'r balans cyfredol i **£697,956**.

5. ALLDRO CYFALAF 2019/20

5.1 Mae manylion y gyllideb Gyfalaf, alldro a ffynonellau ariannu yn ymddangos isod:

	Cyllideb Net	Gwariant	Incwm	Gweddill	Wedi'i Neilltuo	Tan / (Tros)
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheolaeth Tir						
Treftadaeth Diwylliannol	63,206	0	0	63,206	-63,206	0
Treftadaeth Treflun Dolgellau	115,440	146,177	-111,281	80,544	-80,544	0
System Cynllunio	20,000	15,800	0	4,200	-4,200	0
Car Trydan (Cynllunio)	23,250	23,250	0	0	0	0
Ysgwrn	0	37,653	-29,311	-8,342	8,342	0
Cerbyd LIFE	13,396	13,396	0	0	0	0
Cerbydau Wardeiniaid	83,214	67,412	0	15,802	-15,802	0
Cerbyd "Tramper"	0	0	-8,065	8,065	-8,065	0
Prosiectau Mynediad	82,500	0	0	82,500	-82,500	0
Offer Cyfrif Ymwelwyr	0	15,285	-15,000	-285	0	-285
Masnacheiddio Pen y Pass & Llyn Tegid	10,000	972	0	9,028	-9,028	0
Maes Newyddion	0	1,332	-35,550	34,218	-34,218	0
Cwch Llyn Tegid	14,260	14,213	0	47	0	47
Offer Tomwelltu	0	60,639	-60,000	-639	0	-639
Ffridd Isaf	32,000	10,301	0	21,699	-21,699	0
Cadair Idris	0	0	-70,000	70,000	-70,000	0
Llwybr Watkin	11,336	7,060	0	4,276	0	4,276
BwchM - Brithdir	0	19,672	-70,000	50,328	-50,328	0
Offer Mynediad	3,880	106,430	-80,000	-22,550	0	-22,550
Caer Gai	50,000	64,052	0	-14,052	8,182	-5,870
Carneddau	105,000	633	0	104,367	-104,367	0
Gwesty Dewi Sant	265,272	257,261	0	8,011	-8,011	0
Grantiau eraill Ll. Cymru 19/20	0	0	-847,000	847,000	-847,000	0
	892,754	861,538	-1,326,207	1,357,423	-1,382,444	-25,021
Corfforaethol						
Cynllun Dehongli'r Wyddfa	15,000	0	0	15,000	-15,000	0
Cynllun Partneriaeth y Wyddfa	54,666	3,440		51,226	-51,226	0
Cynlluniau TAIS	61,040	210,208	-168,166	18,998	-18,998	0
Rhaglen adnewyddu offer TG	77,340	39,764	0	37,576	-50,000	-12,424
Offer Cyfieithu	10,000	10,037	0	-37	0	-37
Safle Gwe newydd	91,000	1,200	0	89,800	-89,800	0
Fideos Partneriaeth y Wyddfa	3,700	3,700	0	0	0	0
Gwelliannau Canolfan Gwybodaeth						
Betws y Coed	0	7,860	-130,000	122,140	-122,140	0
Arbed Ynni	0	83,568	-88,000	4,432	-4,432	0
Pwyntiau trydan i geir	15,000	5,176	0	9,824	-9,824	0
Plas Tan y Bwlch (gwelliannau llety)	0	19,962	-229,000	209,038	-209,038	0
System llogi cyrsiau	28,193	0	0	28,193	-28,193	0
Boileri Pencadlys	0	88,069	-120,000	31,931	-31,931	0
Hafod Eryri (grant Llyw. Cymru)	0	79,284	-123,700	44,416	-44,416	0
Gorsafoedd Ail-lenwi Dŵr (grant Llyw. Cymru)	15,000	2,958	0	12,042	-12,042	0
Grantiau eraill Ll. Cymru 19/20	0	0	-79,840	79,840	-79,840	0
	370,939	555,226	-938,706	754,419	-766,880	-12,461
CYFANSWM	1,263,693	1,416,764	-2,264,913	2,111,842	-2,149,324	-37,482
CYLLIDO						
Ariannu cyfalaf o refeniw		-143,717				
Defnydd Derbyniadau Cyfalaf		-23,250				
Defnydd grantiau cyfalaf o 17/18 ac 18/19		-456,967				
Grantiau a chyfraniadau yn 19/20		-2,229,363				
Grantiau a chyfraniadau perthnasol i wariant 2020/21		1,436,533				
TOTAL		-1,416,764				

5.2 Mae'r gyllideb net ddiwygiedig o £1,263,693 a'r gwariant net o -£848,149 yn gadael £2,111,842. Ar ôl ystyried gwariant ymrwymedig a gariwyd trosodd i 2020/21 ynghyd

ag eitemau wedi'u neilltuo'n benodol (£2,149,324), mae'n gadael gorwariant o £37,482.

5.3 Mae'r ffigwr ymrwymedig -£2,149,324 yn y tabl yn cynrychioli:

Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn :		
Symiau i'w cario trosodd (Atodiad 4)		£217,201
Gweddill grantiau Ll. Cymru a dderbyniwyd yn 2019/20		£1,476,475
Gweddill cynlluniau hefo grantiau a dderbyniwyd cynt		£347,696
Grantiau CNC a BMC ar gyfer Cader idris		£70,000
Gweddill cyllideb cynllun CDL Dolgellau		£80,544
Incwm net gwerthiant Maes Newyddion		£34,218
Gweddill cyllideb cynlluniau TAIS		<u>£18,998</u>
		£2,245,132
Trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn :		
Ysgwrn	-£8,342	
Caer Gai	-£8,182	
Hafod Eryri	<u>-£79,284</u>	<u>-£95,808</u>
		<u>£2,149,324</u>

6. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD

6.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth dros £30,000 rhwng cyllidebau, fel a ganlyn :

Swm	Cymeradwyaeth y Trosglwyddiad
£30,000 - £100,000	Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd. Trosglwyddiad i'w adrodd i'r Awdurdod nesaf er gwybodaeth yn unig.
£100,000 neu fwy	Penderfyniad Awdurdod

6.2 Mae dau drosglwyddiad gyda gwerth rhwng £30,000 a £100,000 sef

- £66,000 wedi ei drosglwyddo o gyllidebau Ymgysylltu (£35,000), Rheolaeth Corfforaethol (£21,000) a Thechnoleg Gwybodaeth (£10,000) i gyllideb gyfalaf Safle Gwe Newydd yr Awdurdod.
- £32,500 wedi ei symud rhwng cyllidebau Mynediad (-£2,250), Tîm y Wyddfa (-£14,000), Wardeiniaid (+£14,000) a chyllideb gyfalaf Pryniant Cerbydau (+£2,250).

6.3 Mae un trosglwyddiad gwerth £100,000 angen ôl-gymeradwyaeth sef dychwelyd £100,000 o gyllideb gyfalaf gwella trefn gwresogi'r Pencadlys i'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf.

7. ARGYMHELLION

- 7.1 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel ag amlinellwyd yn rhan 3 (manyldra'n atodiad 1) .**
- 7.2 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac ohonynt (symudiad net £3,294,522) fel yr amlinellwyd yn y tabl o dan baragraff 3.2.**
- 7.3 Nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol (paragraff 3.3 i 3.7 ac atodiad 2)**
- 7.4 Cymeradwyo'r llithriadau ac ymrwymïadau (£354,166) sy'n atodiad 4.**
- 7.5 Cymeradwyo defnydd balans yr incwm ychwanegol a thanwariant am y flwyddyn ariannol 2019/20 (£350,882) i gynyddu cronfa Balansau Cyffredinol yr Awdurdod (paragraff 4.2).**
- 7.6 Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5).**
- 7.7 Ôl-gymeradwyo'r trosglwyddiad cyllideb £100,000 (paragraff 6.3)**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2019-20 ar 31 Mawrth 2020

	Cyllideb	Trosglwyddiadau		Cyllideb Net
	Wreiddiol	Misoedd 1 - 7	Misoedd 8 - 12	Ddiwygiedig
	£	£	£	£
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR				
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	407,680	4,605	-7,000	405,285
Galwad Agored (cynllun grant CNC)	22,990	29,838	0	52,828
Awyr Dywyll	15,990	0	0	15,990
ENRaW	0	0	7,000	7,000
Cyfoeth Ein Corsydd	0	0	0	0
SMS - Mawndiroedd Cymru	0	0	0	0
SMS - Eden	0	0	0	0
Grid Cenedlaethol - Maentwrog (Dwyrain)	0	0	0	0
Grid Cenedlaethol - Maentwrog (Gorllewin)	0	75,142	0	75,142
Grid Cenedlaethol - Terfynau Traddodiadol	0	0	0	0
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	74,860	0	-13,396	61,464
Partneriaeth Tirwedd Carneddau	0	0	0	0
RhMMAMG	0	0	0	0
Mynediad i'r Cyhoedd	129,160	-22,390	-11,130	95,640
Tim yr Wyddfa	286,420	16,799	-9,000	294,219
Wardeiniaid - Cyffredinol	259,730	-22,530	-31,550	205,650
Wardeiniaid - Gogledd	256,700	-62,500	12,000	206,200
Wardeiniaid - De	237,920	8,760	7,400	254,080
Gweithwyr Stad	0	-10,870	0	-10,870
Archaeoleg	59,880	13,794	-15,000	58,674
Treftadaeth Diwylliant	110,140	2,475	-3,760	108,855
Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau	36,610	0	0	36,610
Carneddau - Rhan 2	0	0	18,760	18,760
Cynllunio	450,850	0	0	450,850
Ysgwrn	33,010	0	0	33,010
Ysgwrn (cynllun CDL)	0	0	0	0
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	2,381,940	33,123	-45,676	2,369,387
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	103,510	0	-4,455	99,055
Cefnogaeth yr Awdurdod	83,990	0	0	83,990
Rheolaeth Gorfforaethol	672,100	24,058	-32,230	663,928
Eiddo	162,820	43,960	0	206,780
Cyfreithiol	51,830	0	0	51,830
Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer	216,780	4,000	-1,500	219,280
Cyfieithu	109,420	-3,000	0	106,420
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	1,400,450	69,018	-38,185	1,431,283

Atodiad 1 (parhad)

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2019-20 ar 31 Mawrth 2020**

	Cyllideb		Trosglwyddiadau		Cyllideb
	Wreiddiol	£	Misoedd	Misoedd	Net
			1 - 7	8 - 12	Ddiwygiedig
		£	£	£	g
					£
Is-gyfansymiau a gariwyd ymlaen					
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR	2,381,940	33,123	-45,676	2,369,387	
CORFFORAETHOL	1,400,450	69,018	-38,185	1,431,283	
Personel a Hyfforddiant	107,450	4,000	0	111,450	
Pencadlys	225,290	10,420	1,500	237,210	
Systemau Gwybodaeth	325,690	34,660	-10,000	350,350	
Cyllid	166,540	19,700	11,000	197,240	
Plas Tan y Bwlch	285,810	12,000	10,555	308,365	
Ymgysylltu	361,850	142,060	-33,830	470,080	
Safle Gwe Newydd	0	0	16,410	16,410	
Ymgysylltu â Phobl Ifanc (cynllun grant)	0	0	0	0	
Llwybrau Llesiant (cynllun grant)	0	0	0	0	
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	245,800	176,622	1,400	423,822	
Partneriaeth y Wyddfa (LI.Cymru)	0	0	21,634	21,634	
Mynydda Diogel	0	68,925	0	68,925	
Canolfannau Gwybodaeth	140,780	20,100	0	160,880	
Llyn Tegid	-27,970	0	0	-27,970	
Meysydd Parcio	-385,900	0	0	-385,900	
Clirio Sbwriel	15,000	0	0	15,000	
Traffig a Chludiant	5,000	0	0	5,000	
Cyfleusterau Ymwelwyr	187,720	0	0	187,720	
	3,053,510	557,505	-19,516	3,591,499	
BALANSAU	10,000	-10,000	0	0	
CYFANSWM	5,445,450	580,628	-65,192	5,960,886	
Llog a Enillwyd	-8,000	-10,200	-11,000	-29,200	
Cyllido cyfalaf o reffeniw	998,485	289,016	-23,808	1,263,693	
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-579,480	0	0	-579,480	
	5,856,455	859,444	-100,000	6,615,899	
WEDI'I ARIANNU O					
Grant y Parc Cenedlaethol	3,745,263			3,745,263	
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,248,420			1,248,420	
Trosgl. i gronfeydd wrth gefn	862,772	859,444	-100,000	1,622,216	
Cyllideb Net Ddiwygiedig	5,856,455			6,615,899	

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sefyllfa Refeniw Derfynol 2019-20 ar 31 Mawrth 2020

	Cyllideb Net Ddiwyg. £	Gwir Wariant £	Wedi'i Neilltuo £	o dan / (trosodd) £
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR				
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	405,285	315,975	33,832	55,478
Galwad Agored (cynllun grant CNC)	52,828	25,550	27,278	0
Awyr Dywyll	15,990	-28,451	44,441	0
ENRaW	7,000	-7,894	14,894	0
Cyfoeth ein Corsydd	0	1,189	-1,189	0
SMS Mawndiroedd Cymru	0	-12,097	12,097	0
SMS Eden	0	-16,119	16,119	0
SMS Uwch Gwyrfai	0	-3,330	3,330	0
Grid Cenedlaethol - Maentwrog (Dwyrain)	0	-95,719	95,719	0
Grid Cenedlaethol - Maentwrog (Gorllewin)	75,142	32,716	42,426	0
Grid Cenedlaethol - Terfynau Traddodiadol	0	0	0	0
Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE)	61,464	-750,913	812,377	0
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau (Rhan 1)	0	9,711	-9,711	0
Carneddau (Rhan 2)	18,760	880	17,880	0
RhMMAMG	0	0	0	0
Mynediad i'r Cyhoedd	95,640	79,420	0	16,220
Tîm yr Wyddfa	294,219	292,091	0	2,128
Wardeiniaid - Cyffredinol	205,650	175,586	0	30,064
Wardeiniaid - Gogledd	206,200	192,504	0	13,696
Wardeiniaid - De	254,080	249,426	0	4,654
Gweithwyr Stad	-10,870	-10,719	0	-151
Archaeoleg	58,674	31,074	13,794	13,806
Treftadaeth Diwylliant	108,855	43,832	50,200	14,823
Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau	36,610	27,181	9,429	0
Cynllunio	450,850	398,796	10,000	42,054
Ysgwrn	33,010	51,172	-18,162	0
Ysgwrn (CDL)	0	-10,824	10,824	0
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	2,369,387	991,037	1,185,578	192,772
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	99,055	95,158	0	3,897
Cefnogaeth yr Awdurdod	83,990	72,802	0	11,188
Rheolaeth Corfforaethol	663,928	539,713	26,338	97,877
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	846,973	707,673	26,338	112,962

Atodiad 2 (parhad)

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sefyllfa Refeniw Derfynol 2019-20 ar 31 Mawrth 2020**

	Cyllideb Net Ddiwyg. £	Gwariant Gwir. £	Wedi'i Neilltuo £	o dan / (trosodd) £
Is-gyfansymiau a gariwyd ymlaen				
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR	2,369,387	991,037	1,185,578	192,772
CORFFORAETHOL	846,973	707,673	26,338	112,962
Eiddo	206,780	229,204	0	-22,424
Cyfreithiol	51,830	109,630	0	-57,800
Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer	219,280	204,118	0	15,162
Cyfieithu	106,420	83,229	0	23,191
Personel a Hyfforddiant	111,450	113,620	0	-2,170
Pencadlys	237,210	224,990	0	12,220
Systemau Gwybodaeth	350,350	330,892	0	19,458
Cyllid	197,240	190,861	0	6,379
Plas Tan y Bwlch	308,365	468,735	0	-160,370
Ymgysylltu	470,080	373,637	83,640	12,803
Safle Gwe Newydd	16,410	2,350	14,060	0
Partneriaeth y Wyddfa (Ll. Cymru)	21,634	21,635	0	-1
Mynydda Diogel (Ll.C.)	68,925	18,921	50,004	0
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	423,822	219,055	139,744	65,023
Canolfannau Gwybodaeth	160,880	142,085	0	18,795
Llyn Tegid	-27,970	-44,145	0	16,175
Meysydd Parcio	-385,900	-487,838	0	101,938
Clirio Sbwriel	15,000	18,146	0	-3,146
Traffig a Chludiant	5,000	1,000	0	4,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	187,720	173,200	0	14,520
	3,591,499	3,100,998	313,786	176,715
BALANSAU	0	0	0	0
	5,960,886	4,092,035	1,499,364	369,487
CYFANSWM				
Llog a Enillwyd	-29,200	-48,077	0	18,877
Cyllido cyfalaf o refeniw	1,263,693	-848,149	2,149,324	-37,482
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-579,480	-579,480	0	0
	6,615,899	2,616,329	3,648,688	350,882
WEDI'I ARIANNU O				
Grant y Parc Cenedlaethol	3,745,263			
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,248,420			
Defnydd o gronfeydd wrth gefn	1,622,216			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	6,615,899			

Atodiad 3

Grantiau Llywodraeth Cymru lle mae gweddill yn sefyll		Grant Gwreiddiol (£)	Gweddill 31/3/20 (£)
Grantiau a gariwyd ymlaen o 2016/17	Refeniw		
	Mynydda Diogel	-70,000	-50,004
		-70,000	-50,004
	Cyfalaf		
	Pont troed Capel Curig	-10,000	-10,000
		-10,000	-10,000
	Cyfanswm	-80,000	-60,004
Grantiau Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd ym Mawrth 2017/18	Refeniw		
	Masnacheiddio y gwasanaeth Mynediad ar gyfer allbynnau iechyd a llesiant - ail bwrpaswyd ar gyfer safle gwe newydd	-31,000	-20,080
	Cynllun Dehongli'r Wyddfa	-10,000	-10,000
	Pwyntiau trydan ceir	-5,000	-2,500
	parhâd gwasanaethau	-247,000	-25,402
		-293,000	-57,982
	Cyfalaf		
	Cynllun Dehongli'r Wyddfa	-50,000	-50,000
	Cynllun y Carneddau - Data LiDAR	-85,000	-71,727
	Cynllun y Carneddau - gwaith llwybrau	-130,000	-130,000
	Cynllun Partneriaeth Wyddfa	-130,000	-101,226
	Ffridd Isaf, Wyddfa - gwelliant Mynediad	-40,000	-21,699
	Masnacheiddio y gwasanaeth Mynediad ar gyfer allbynnau iechyd a llesiant (£20k wedi ei ailbwrpasu at gost safle gwe newydd)	-45,000	-45,000
	Arbedion effeithlonrwydd i offer TG perthnasol I Reolaeth Datblygu	-20,000	-4,200
	Cwblhau gwaith i gynlluniau SMS, LIFE a CTL	-30,000	-30,000
	Pwyntiau trydan ceir	-25,000	-19,825
	Prosiectau cefnogol i wneud Pen y Pass a Llyn Tegid yn fwy masnachol gynladwy	-20,000	-9,028
	Gwelliannau i wneud yr Ysgwrn yn fwy masnachol gynladwy ar ôl diwedd y cynllun CTL	-40,000	-40,000
	Prynu safle gwe newydd i'r Awdurdod	-25,000	-23,800
	Dymchwel Gwesty Dewi Sant Harlech	-315,000	-8,011
		-955,000	-554,516
		-1,248,000	-612,498
	Cyfanswm		
Grantiau Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd ym Mawrth 2018/19	Refeniw		
	Ysgwrn	-132,000	-132,000
	Pensaer Tirweddau	-135,700	-135,700
	Ecoleg	-113,300	-113,300
	Ymgrych sbwriel/effaith pobl	-40,000	-30,000
	Llwybrau llesiant	-55,000	-55,000
	Safle Gwe'r Awdurdod	-79,000	-79,000
	Ymgysylltiad â phobl ifanc	-75,000	-75,000
		-630,000	-620,000
	Cyfalaf		
	Gorsafoedd Ail-lenwi Dŵr ar safleoedd allweddol	-15,000	-12,042
Gwelliannau cyfalaf i Hafod Eryri	-176,300	-97,016	
	-191,300	-109,058	
	-821,300	-729,058	
	Cyfanswm		
	-2,149,300	-1,401,560	

Atodiad 3 (parhâd)

Grantiau Llywodraeth Cymru lle mae gweddill yn sefyll		Grant Gwreiddiol	Gweddill 31/3/20
		(£)	(£)
	cariwyd trosodd	-2,149,300	-1,401,560
Grantiau Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd yn 2019/20	Cyfalaf		
	Betws y Coed - profiad ymwelwyr	-85,000	-82,075
	Cerbyd "tramper" newydd - i wella mynedaid i'r anabl	-16,000	-8,065
	Gwelliannau i adnodd lletya ym Mhlas Tan y Bwlch	-200,000	-193,882
	Plas Tan y Bwlch - uwchraddio	-29,000	-15,157
	Paneli solar a mesurau arbed ynni eraill	-88,000	-4,432
	Arsyllfa Symudol	-100,000	-100,000
	Llwybrau Awyr	-15,000	-15,000
	Penmaen Brith (cylchdaith)	-50,000	-50,000
	Llyn Cynwch, Dolgellau (cylchdaith)	-70,000	-70,000
	Cylchdaith Eryri : Bwlch Maesgwn i Brithdir	-70,000	-50,328
	Cylchdaith Eryri : Brithdir i Pen Ceunant	-70,000	-70,000
	System wresogi newydd (Pencadlys)	-120,000	-31,931
	Rhaglen Cadwraeth ac ail-adfywio Harlech	-187,000	-187,000
	Hafod Eryri	-123,700	-123,700
	Canolfan Gwybodaeth Betws y Coed : datblygiad adnodd café a gwerthiant	-45,000	-40,065
	Canolfan Ogwen : datblygu gwybodaeth ar gyfer cerddwyr a grwpiau eraill	-79,840	-79,840
	Tirwedd chwarel lechi Gorseddau	-150,000	-150,000
	Man croesi Nant Gwynant	-45,000	-45,000
	Cader Idris - llwybrau'r ucheldir	-100,000	-100,000
	Llyn Llywelyn / Drws y Coed, Rhyd Ddu	-30,000	-30,000
	Lon Gwyrfai	-30,000	-30,000
	Cyfanswm	-1,703,540	-1,476,475
Cyfanswm Cyfan	-3,852,840	-2,878,035	

		Atodiad 4	
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri			
Llithriant a Chostau Eraill 2019-20			
		(£)	(£)
Cadwraeth, Coed ac Amaeth			
Archebion rheolaeth rhododendron		8,430	8,430
Archaeoleg			
Gwaith yn Nhomen y Mur		2,746	2,746
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau			
Cronfa Gwirfoddoli a Chymuned		13,650	
Cynllun Rheolaeth y Parc		12,161	25,811
Ymgysylltu			
Cyfraniad at gost safle gwe newydd		26,690	
Datblygu cynnwys ar-lein a nwyddau ymgysylltu dros gyfnod Covid-19		14,470	
Cwblhau gwaith VR Wyddfa		5,000	
Cyfraniad at TAIS Ogwen		5,000	
Adnewyddu dehongli Hafod Eryri		19,000	
Arbediad ar gost cynhyrchu cylchgrawn Eryri - treialu "mail-shot" o fewn y Parc Cenedlaethol a chymunedau agos		3,480	73,640
Rheolaeth Corfforaethol			
Cronfa Tîm Rheoli		26,338	26,338
CYFALAF			
Prosiectau cyfalaf Treftadaeth Diwylliannol		63,206	
Cerbydau Wardeinio a Mynediad		15,802	
Prosiectau Mynediad		60,000	
System Rheoli Bâs-data		50,000	
Datblygu'r system bwcio cyrsiau ym Mhlas Tan y Bwlch		28,193	217,201
Cyfanswm Llithriant a Chostau Eraill 2019/20			354,166

EITEM RHIF 3

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	30ain Mehefin 2021
TEITL	ADRODDIAD ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2020/21
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	<ol style="list-style-type: none">i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb, trosglwyddiadau arian, a'r arian a gariwyd ymlaen o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad.ii. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.iii. Rhoi ystyriaeth i'r perfformiad adrannol gyda golwg ar reolaeth gyllidebol.iv. Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r cronfeydd wrth gefn.

1. CYD-DESTUN

- 1.1 Mae sefyllfa ariannol derfynol y gwasanaethau am 2020/21 yn cadarnhau fod yr Awdurdod wedi llwyddo unwaith eto i gadw o fewn y cyfyngiadau ariannol gyda than-variant net o £10,237. (gweler Atodiad 2).
- 1.2 Gan fod amgylchiadau'r pandemig COVID-19 yn amharu gymaint ar waith awdurdodau lleol, mae estyniad amser dros-dro wedi ei ganiatau ar gyfer cwblhau ac awdurdodi'r datganiad cyfrifon blynyddol. Felly, gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2020/21 (a throsglwyddiadau ariannol perthnasol), fel rhan o'r drefn cynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol (sydd i'w hardystio gan y Prif Swyddog Cyllid erbyn 31 Awst, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod erbyn 30 Tachwedd 2021).
- 1.3 Dylid nodi y gall rhai ffigyrau yn yr adroddiad hwn gael eu haddasu yn ystod y drefn o gau'r cyfrifon (rhwng nawr a 31/8/2021) a bod yr holl ffigyrau yn ddarostyngedig i archwiliad (rhwng nwan a 31/11/2021). Adroddir ymhellach i'r Awdurdod ar unrhyw addasiadau sylweddol a wneir yn y datganiad o gyfrifon ac yn dilyn cwblhau'r archwiliad arnynt.

2 GRANTIAU A DDERBYNIWYD YN 2020/21

2.3 Yn wreiddiol cynhaliwyd cyllid grant sylfaenol y Parc Cenedlaethol gan Llywodraeth Cymru am 2020/21 ar yr un lefel â 2019/20. Yn ystod y flwyddyn dyrannwyd cyfanswm o £2,131,344 o arian grantiau “un tro” ychwanegol i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn :

£275,214	grant refeniw sylfaenol ychwanegol
£314,530	grant cyfalaf sylfaenol ychwanegol
£1,288,600	grant cyfalaf Tiroedd Cynaliadwy Lleoledd Cynaliadwy (TCLIC dau ran)
<u>£253,000</u>	grant cyfalaf TCLIC (ar gyfer pryniant Bwlch Coediog) a droswyd i grant cyfalaf sylfaenol ar gyfer cyllido gwariant ar Hafod Eryri.
<u>£2,131,344</u>	

Mae'r tri grant cyntaf uchod wedi eu dynodi ar gyfer 2020/21 felly fe ddelir eu gweddill yng nghronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Mae'r £253,000 yn benodol ar gyfer gwaith yn 2021/22 ac felly'n cael ei drî fel grant a dderbyniwyd ymlaen llaw o fewn credydwy'r ym mantolen yr Awdurdod.

2.4 Yn ogystal i'r uchod derbyniodd yr Awdurdod grantiau cymorth yn sgîl effaith y pandemig fel a ganlyn :

£382,140	grant cymorth chwarter un gan Llywodraeth Cymru
£256,348	grant cymorth “seibiant swydd” trwy'r HMRC
£35,050	grantiau cymorth i'r Ysgwrn gan Llywodraeth Cymru a'r Ffederasiwn Amgueddfeydd
<u>£138,000</u>	grantiau cymorth busnes trwy Gyngor Gwynedd a Chyngor Conwy
<u>£811,538</u>	

3. AMLINELLIAD O SEFYLLFA DERFYNOL Y CYFRIFON

3.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cymhariaeth, ar lefel maes gwasanaeth, rhwng y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar eu cyfer, a'r gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer 2020/21.

3.2 Cyfanswm gwariant net y flwyddyn oedd £3,886,741 sef £3,108,371 o dan y gyllideb net ddiwygiedig o £6,995,112. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys effaith swm sylweddol o grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw. Cyfanswm y gwariant cyfalaf gros ar gyfer y flwyddyn oedd £1,798,494.

3.3 Gweler o'r tabl o dan 4.2 fod £3,108,371 o falansau ar gael cyn trosglwyddiadau net gwerth £2,864,679 i gronfeydd penodol wrth gefn, a hefyd fod llithriadau ac ymrwymadau (i 2021/22) o rai o ddyraniadau cyllideb 2020/21 gwerth £233,455. Mae hyn yn dod â'r balans sy'n weddill ar gael i'w ail-glustnodi i **£10,237**.

4. CRYNODEB REFENIW TERFYNOL 2020/21

Maes Gwasanaeth	Cyllideb Net Wreiddiol £	Trosgl. £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £	Gwir Wariant £	Dan / (Dros) £
Cynllunio a Rheolaeth Tir	2,440,830	-95,203	2,345,627	1,505,001	840,626
Corfforaethol	3,323,957	48,123	3,372,080	3,107,988	264,092
Balansau	10,000	-10,000	0	0	0
	5,774,787	-57,080	5,717,707	4,612,989	1,104,718
Llog a Enillwyd	-23,000	0	-23,000	-12,307	-10,693
Ariannu Cyfalaf o refeniw	1,795,767	72,438	1,868,205	-146,141	2,014,346
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-567,800	0	-567,800	-567,800	0
CYFANSWM	6,979,754	15,358	6,995,112	3,886,741	3,108,371

4.1 Cyllideb Net ar gyfer 2020/21

Mae'r cynnydd o £15,358 yn y gyllideb refeniw sylfaenol net o £6,979,754 i £6,995,112 yn cynrychioli yr ychwanegiadau canlynol :

- -£5,063 addasiad mewn cyllidebau cyfalaf yn dilyn alldro 2019/20
- +£75,933 grantiau Cronfa Eryri o'r gronfa wrth gefn Prosiectau
- -£9,672 addasiad i'r gyllideb ar gyfer gwaith llwybr "Bwlch Mawr – Brithdir"
- -£45,840 symud cyllideb swyddog prosiect (Treftadaeth Diwylliannol) i'r gronfa wrth gefn Prosiectau

Mae'r Awdurdod eisoes wedi ei hysbysu o'r uchod. Yn Atodiad 1, ceir manylion pellach ynghylch y trosglwyddiadau yr adroddwyd amdanynt i'r Awdurdod ym Mawrth a'r rhai sydd wedi'u gweithredu oddi ar hynny.

4.2 Trosglwyddiadau o ac i Gronfeydd Wrth Gefn a Chostau penodol Eraill

Mae balans o £3,108,371 cyn trosglwyddiadau o ac i'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir crynodeb o'r dadansoddiad o'r trosglwyddiadau yn y tabl isod, ynghyd â chostau penodol eraill, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2020/21			3,108,371
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir	108,078		
Corfforaethol	35,652	143,730	
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir	-1,646,774		
Corfforaethol	-1,361,635	-3,008,409	-2,864,679
Llithriant a Chostau Eraill (gweler Atodiad 4)	-233,455		-233,455
Balans ar gael i'w ailddyrrannu			10,237

4.3 Alldro Adrannol

Pennwyd trosglwyddiadau hanfodol o ac i gronfeydd wrth gefn o fewn rhaglenni penodol neu wedi'u neilltuo ym mhwynt 4.2 eisoes.

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa pob lefel cyfarwyddiaeth ar ôl cymryd yr eitemau wedi'u neilltuo a'r rhai penodol a ddygwyd ymlaen o fewn cyllideb 2020/21 i ystyriaeth:

CYFARWYDDIAETH	Cyllideb Net Ddiwygiedig £	Gwir Wariant £	Dan / (Dros) £	Ymrwymiad £	Dan / (Dros) £
Cynllunio a Rheolaeth Tir	2,345,627	1,505,001	840,626	763,571	77,055
Corfforaethol	3,372,080	3,107,988	264,092	339,970	-75,878
IS-GYFANSWM	5,717,707	4,612,989	1,104,718	1,103,541	1,177
Llog a Enillwyd	-23,000	-12,307	-10,693	0	-10,693
Ariannu Cyfalaf o reffeniw	1,868,205	-146,141	2,014,346	1,994,593	19,753
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-567,800	-567,800	0	0	0
CYFANSWM	6,995,112	3,886,741	3,108,371	3,098,134	10,237

Cyfanswm yr incwm ychwanegol a'r tanwariant, ar ôl cymryd i ystyriaeth y trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn, oedd **£10,237**.

4.4 Dadansoddiad Manwl

Mae dadansoddiad manylach fesul gwasanaeth o'r gwariant a'r ymrwymadau ar gyfer 2020/21 yn Atodiad 2.

4.5 Amrywiadau Sylweddol

Wardeniaid - Gogledd	258,400	0	0	258,400
Wardeniaid - De	239,860	0	0	239,860
	5,064,911	269,323	0	5,334,234
BALANSAU	10,000	-10,000	0	0
CYFANSWM	6,620,411	334,090	0	6,954,501
Llog a Enillwyd	-8,000	0	0	-8,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	1,636,048	114,534	-	1,750,582
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-591,050	0	0	-591,050
	7,657,409	448,624	0	8,106,033
WEDI EI ARIANNU O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262			1,373,262
Tros o'r cronfeydd wrth gefn	2,164,358	448,624		2,612,982
Cyllideb Net	7,657,409			8,106,033

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sefyllfa Refeniw Derfynol 2021-22 ar 31 Mawrth 2022**

	Cyllideb Net ddiwygiedig	Gwir Wariant	Wedi'i Neilltuo	Gwariant O dan/ (Trosodd)
	£	£	£	£
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR				
Coedwigwyr SLSP	20,966	19,208	0	1,758
Coed Cadw		-18,226	18,226	0
Cadwraeth Coed & Amaeth	385,435	303,923	68,102	13,410
Ysgwrn	94,190	103,626	0	-9,436
Awyr Dywyll	47,800	40,554	7,246	0
ENRaW	12,950	-1,503	14,453	0
MawndirCymru(grant)	45,200	51,216	0	-6,016
Grid Cenedlaethol Maentwrog (Dwyrain)	123,119	6,885	116,234	0
Grid Cenedlaethol Maentwrog (Gorllewin)	25,411	500	24,911	0
LIFE-CoedwigCeltaidd	74,860	22,527	52,333	0
Treftadaeth Diwylliannol	66,480	32,899	18,428	15,153
Treftadaeth Dolgellau	22,510	28,736		-6,226
Harlech ac Ardudwy	61,110	39,227	21,883	0
Archaeoleg	63,086	42,040	21,046	0
Cynllunio	558,900	325,855	233,045	0
Carneddau	18,250	46,160	-27,910	0
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	1,620,267	1,043,627	567,997	8,643
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	107,510	105,915	0	1,595
Cefnogaeth yr Awdurdod	84,810	71,730	0	13,080
Rheolaeth Corfforaethol	1,151,979	563,981	578,542	9,456
Eiddo	259,330	273,956	0	-14,626
Cyfreithiol	52,290	44,068	0	8,222
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	209,170	199,599	0	9,571
Cyfieithu	110,780	87,899	0	22,881
Personel a Hyfforddiant	108,250	98,967	0	9,283
Pencadlys	222,410	208,904	0	13,506
Systemau Gwybodaeth	335,130	327,213	0	7,917
Cyllid	191,570	196,478	0	-4,908
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	286,210	363,482	0	-77,272
Ymgysylltu	535,565	455,435	61,300	18,830
Safle Gwe Newydd	69,450	43,710	25,740	0
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant LI.C.)	20,010	0	20,010	0
Llwybrau Llesiant (grant LI.C.)	40,000	0	40,000	0
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	372,076	189,379	164,780	17,917
Canolfannau Gwybodaeth	133,210	163,400	0	-30,190
Llyn Tegid	-19,940	-68,990	0	49,050
Meysydd Parcio	-423,580	-847,979	0	424,399

Clirio Sbwriel	22,922	22,922	0	0
Traffig a Chludiant	5,000	0	0	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	277,308	248,618	22,000	6,690
Mynediad Cyhoeddus	101,746	100,273	0	1,473
Tim Y Wyddfa	283,412	261,380	20,000	2,032
Wardeniaid - Cyffredinol	289,372	289,372		0
Wardeniaid - Gogledd	258,400	205,826	49,245	3,329
Wardeniaid - De	249,844	249,844		0
	5,334,234	3,855,382	981,617	497,235
BALANSAU	0	0	0	0
	6,954,501	4,899,009	1,549,614	505,878
CYFANSWM				
Llog a Enillwyd	-8,000	-11,612		3,612
Cyllido Cyfalaf o Refeniw	1,746,003	507,881	1,231,294	6,834
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-591,050	-591,050		0
	8,101,454	4,804,228	2,780,908	516,324
WEDI'I ARIANNU O				
Grant y Parc Cenedlaethol	4,189,789			
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,373,262			
Defnydd o gronfeydd wrth gefn	2,538,403			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	8,101,454			

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2021/22			3,297,226
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Ffridd Uchaf (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	27,021		
Mynediad (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	8,334		
Bwlch Brithdir	49,245		
Carneddau	27,910		
		112,510	
Corfforaethol			
Dathlu 70 (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	18,077		
Tramper (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	6,680		
Safle Gwe (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	80,611		
Gwresogi HQ (Grant SLSP)	11,224		
		116,592	
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Treftadaeth Diwylliannol	167,469		
Cynllun Treftadaeth Dolgellau	136,345		
LiDAR (Grant Cyfalaf LI.C)	17,590		
Llwybrau Carneddau (Grant LI.C)	32,500		
Betws y Coed (Grant Cyfalaf LI.C)	72,807		
Arsyllfa Symudol (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	10,251		
Penmaenpool - Brithdir (Grant LI.Cymru)	25,000		
Llyn Cynwch (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	30,000		
Brithdir (grant LI.Cymru)	40,000		
Harlech (Grant Cyfalaf LI.C)	40,000		
Gorseddau (Grant LI.Cymru)	50,000		
Nant Gwynant (Grant LI.Cymru)	45,000		
Cadair Idris (Grant LI.Cymru)	25,907		
Llyn Llywelyn (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	23,750		
Lon Gwyrfaei (Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru)	23,848		
Cynllun Grid Cenedalethol	141,145		
Morfa Dyffryn (Grant T.C.LI.C)	2,017		
Llyn Nantlle (Grant T.C.LL.C)	3,185		
Clwy'r Ynn (Grant T.C.LL.C)	3,979		
Bioamrywiaeth (Grant T.C.LL.C)	6,181		
Dadcarboneiddio (Grant T.C.LL.C)	28,250		
Cadwraeth (Grant T.C.LL.C)	23,700		
Coetir Hynafol (Grant T.C.LL.C)	10,406		
Crafnant/ Capel Curig (Grant T.C.LL.C)	68,605		
Llyn Tegid (Grant T.C.LL.C)	1,580		
Cwm Rhwyddfor (Grant T.C.LL.C)	3,663		
Awyr Dywyll (Grant T.C.LL.C)	90,879		
Coed Cade Dyfi (Grant Refeniw)	18,228		
Cadwraeth Coed ac Amaeth	50,000		
Awyr Dywyll	7,246		
ENRaW	14,453		
Cynllun LIFE (Grant refeniw)	52,333		

Mawndiroedd	4,602	
Amlychedd Adeiliedig	6,428	
Harlech ac Ardudwy	21,883	
Archeoleg	5,000	
Rheolaeth Datblygu (Cronfa Adran 106)	198,362	
Cynllunio	34,682	
Mynediad	20,000	
Wardeiniaid	49,245	
		1,606,519
Corfforaethol		
Uwchraddio Toiledau (Grant T.C.LL.C Ll. Cymru)	59,617	
Offer Technoleg Gwybodaeth	50,000	
Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Cyfalaf Ll.C)	50,000	
Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa	31,601	
EVCP (Grant Cyfalaf Ll.Cymru)	5,148	
Gorsfaoedd Dwr (Grant Cyfalaf Ll.C)	12,040	
Technoleg Gwybodaeth (Grant T.C.Ll.C)	13,308	
Cronfa Cymunedol (Grant T.C.LL.C)	59,496	
EVCP (Grant T.C.LL.C)	11,100	
Ymgysylltu - Cynllun Caru Eryri	10,000	
Safle Gwe	25,740	
Ymgysylltu Pobl Ifanc (Grant Refeniw Ll.Cymru)	20,010	
Llwybrau Llesiant (Grant Refeniw Ll.Cymru)	39,968	
Partneriaeth yr Wyddfa	30,000	
Rheolaeth Corfforaethol	578,542	
Grant Amrywiol Cyfalaf (Grant Cyfalaf Ll.Cymru)	8,000	
Fideos Partneriaeth yr Wyddfa	15,000	
Uwchraddio Cyfleusterau Morfa Mawddawch (Arian cyfatebol)	22,000	
Swyddog Partneriaeth Eryri	87,000	
		1,128,601
Cyfanswm		-2,506,018
Llithriant a Chostau Eraill (gweler atodiad 4)	-274,884	-274,884
Balans ar gael i'w ailddyrranu		516,324

Atodiad 4**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Llithriant a Chostau Eraill 2021-22**

	(£)	(£)
Cynllunio		
cyflogaeth ychwanegol a system gynllunio	<u>92,539</u>	92,539
Archeoleg		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	<u>16,046</u>	16,046
Treftadaeth Diwylliannol		
Costau dehongli Capel Celyn	7,000	
Prosiect addysg	<u>5,000</u>	12,000
Ymgysylltu		
Tanwariant ymgysylltu oherwydd oedi ar waith Hafod Eryri	10,000	
Ymgyrch ymwelwyr yr haf	8,000	
Côst datblygu gwefan	7,000	
Swyddog gwirfoddoli a llesiant (2 ddiwrnod yr wythnos)	14,800	
Costau gwirfoddolwyr Caru Eryri	1,500	
Cronfa Gymunedol 2022 - 2023	<u>10,000</u>	51,300
Partneriaeth yr Wyddfa		
Grantiau Partneriaeth Eryri	47,780	47,780
Amaeth		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	13,500	13,500
CYFALAF		
Cerbydau Wardeinio a Mynediad	<u>41,719</u>	41,719
Cyfanswm Llithriant a Chostau Eraill 2020-21		274,884

ALLDRO CYFALAF 2021/22

	Cyllideb Net	Gwariant	Incwm	Gweddill	Wedi'i Neilltuo	Tan / (Tros)
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
AmgylcheddAdeiliedig	176,953	9,484	0	167,469	167,469	0
MTT Dolgellau	176,810	166,716	-126,251	136,345	136,345	0
LiDAR-Gr.LI.Cymru	17,590	0	0	17,590	17,590	0
LlwybrCarnGrantLICy	32,500	0	0	32,500	32,500	0
ArsyllfaSymudol-LIC	25,000	14,749	0	10,251	10,251	0
ByCoed(grant LI.C.)	77,145	4,338	0	72,807	72,807	0
Adf.Harlech-grantLIC	40,000	0	0	40,000	40,000	0
Gorseddau-grantLIC	50,000	0	0	50,000	50,000	0
NantGwynant-LIC	45,000	0	0	45,000	45,000	0
CadairIddris-LIC	50,000	24,093	0	25,907	25,907	0
LlynLlywely-grantLIC	23,750	0	0	23,750	23,750	0
LonGwyrfa-grantLIC	30,000	6,152	0	23,848	23,848	0
Coetiroedd(SLSP)	7,348	6,340	0	1,008	0	1,008
MeithrinfraGoed(SLSP)	4,917	4,425	0	492	0	492
Ysgwrn(SLSP2)	41,109	41,109	0	0	0	0
Ogwen(ffibr)--SLSP	20,000	20,000	0	0	0	0
MorfaDyffryn-SLSP	22,250	20,233	0	2,017	2,017	0
YSGWRN-SLSP1	74,208	62,913	0	11,295	0	0
HawlTramwy-SLSP	0	0	0	0	0	0
LlynNantlle-SLSP	8,227	5,042	0	3,185	3,185	0
Meithrinfra(grantWTr)	7,415	7,469	-54	0	0	0
Offer Mawndiroedd	27,923	27,923	0	0	0	0
Clwy'rYnn-grantLI.C.	50,000	46,021	0	3,980	3,980	0
Bioamrywiaeth-grLI.C	75,000	68,818	0	6,182	6,182	0
Ard.Cadwraeth-SLSP	0	42,300	-66,000	23,700	23,700	0
CoetirHynafol-SLSP	0	99,593	-110,000	10,407	10,407	0
Crafnant/CCurig-SLSP	0	147,000	-215,605	68,605	68,605	0
LlynTegid-SLSP	0	15,804	-17,384	1,580	1,580	0
CwmRhwyddfwr-SLSP	0	5,691	-9,355	3,664	3,664	0
Awyr Dywyll - SLSP	0	45,162	-136,042	90,880	90,880	0
Pont Troed Capel Curig (Grant LI.Cymru.)		6,490	0	-6,490	-6,490	
Is-gyfanswm Cynllunio a Rheolaeth Tir	1,083,145	897,864	-680,691	872,462	853,176	1,501
Corfforaethol						
Cader Idris	0	4,724	-4,999	275	0	275
SnowIntPlanGrantLICy	50,000	0	0	50,000	50,000	0
CynllPartWyddfaGrLIC	47,463	15,862	0	31,601	31,601	0
FfriddUchafGrLICymru	6,250	33,271	0	-27,021	-27,021	0
EVCP-GrLICymru	12,289	7,037	0	5,252	5,148	104
Mynediad-Gr.LI.Cymru	0	1,844	0	-1,844	-1,844	0
SystemTGCynllunioGrL	92,539	0	0	92,539	92,539	0
CynllGrAm-Gr.LICymru	8,000	0	0	8,000	8,000	0
SafleGwe-GrLICymru	10,000	90,611	0	-80,611	-80,611	0
PontLlugwyCCurig	0	6,490	0	-6,490	-6,490	0
Can.Ogwen (TAIS)	2,000	2,000	1,793	-1,793	0	-1,793
Gorsfaoedd Dwr	12,040	0	0	12,040	12,040	0
Tramper-grant LI.C.	0	6,680	0	-6,680	-6,680	0
Plas&M.Parcio-grLI.C	40,000	40,000	0	0	0	0
Uwchraddio toiledau	0	52,582	-112,200	59,618	59,618	0
Offer TG	55,990	7,878	0	48,112	50,000	-1,888
Cerbydau wardeiniaid	82,802	41,083	0	41,719	41,719	0
Prosiectau Mynediad	79,530	70,000	0	9,530	0	9,530
PenmaenBrith-grLI.C.	25,000	0	0	25,000	25,000	0
LlynCynwch-grLI.C.	30,000	0	0	30,000	30,000	0
BwchM-Brithdir-LIC	7,179	56,424	0	-49,245	-49,245	0
Brithdir-PenC-grLIC	40,000	0	0	40,000	40,000	0
DATH70-grantLIC	30,000	48,077	0	-18,077	-18,077	0
Fideos - PartWyddfa	15,000	0	0	15,000	15,000	0
RheoliYmwe(SLSP)ETJ	0	900	0	-900	0	-900
TG (SLSP)	0	43,192	-56,500	13,308	13,308	0
GwresogiHQ-SLSP	20,485	30,785	0	-10,300	-10,300	0
PaneliSolarHQ-SLSP	7,586	8,510	0	-924	-924	0
CronfaCymunedolEryri	0	138,160	-197,656	59,496	59,496	0
Dadcarboneyddio-SLSP	0	41,050	-69,300	28,250	28,250	0
EVCP-SLSP	0	34,899	-46,000	11,101	11,101	0
Is-gyfanswm Corfforaethol	674,153	782,059	-484,862	376,956	371,628	5,328
CYFANSWM	1,757,298	1,679,923	-1,165,552	1,249,418	1,224,804	6,829

31 Mawrth 2022

	Cronfa	Gweddill (£)	Disgrifiad
1	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	163,791	Cronfa o incwm gwerthiannau cyfalaf, lle medrir ond defnyddio arian ar gyfer gwariant cyfalaf.
2	Cronfa Adran 106	457,231	Arian a glustnodwyd ar gyfer tai fforddiadwy. Maint y gronfa yn amrywio - yn ddibynol ar y nifer o achosion cynllunio perthnasol sy'n codi, a'r defnydd a wneir o'r arian.
3	Cronfa Grantiau Refeniw	1,742,641	Grantiau refeniw a dderbyniwyd ymlaen llaw ac a glustnodwyd at ddefnydd penodol.
4	Cronfa Grantiau Cyfalaf	2,095,047	Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw ac a glustnodwyd at ddefnydd penodol.
5	Cronfa Rheoli Asedau	917,718	Cronfa ar gyfer delio gyda chostau eiddo sydd tu hwnt i gyllideb arferol blynyddol y Gwasanaeth Eiddo.
6	Cronfa Archwiliad Cyhoeddus (Cynllunio)	225,000	Ar gyfer delio gydag unrhyw archwiliad cyhoeddus, achos llys neu adolygiad barnwrol ar faterion Cynllunio ynghyd â delio gyda chostau ychwanegol ar adolygiad yn 2023 a chreu Cynllun Datblygu Lleol newydd yn 2025, .
7	Cronfa Arian Cyfatebol	991,398	Yn galluogi'r Awdurdod i geisio am gyllid allanol a gweithredu ar sail cyllid uwch na'r gwaelodlin blynyddol.
8	Cronfa Arian Gariwyd Drosodd	830,794	
9	Cronfa Prosiectau	936,357	Cronfa ar gyfer prosiectau penodol gan yr Awdurdod.
10	Cronfa Isadeiledd y Wyddfa	56,303	Arian ar gyfer cynnal isadeiledd ar y Wyddfa
11	Cronfa risgiau penodol	424,160	Cronfa i ddelio gydag unrhyw doriadau posibl.
12	Cronfa Gwytnwch Staff	120,000	Cronfa ar gyfer prynu gwasanaeth i mewn fel bo'r angen lle mae absenoldeb tymor hir, neu ar gyfer cyflawni elfennau penodol o waith.
13	Cronfa Risg Masnachol	100,000	Gan fod yr Awdurdod yn cynnwys ffynhonnellau incwm yn ei waelodlin, gall amgylchiadau godi yn arwain at ddiffyg yn yr incwm hwnnw e.e. tywydd anffafriol yn effeithio ar incwm meysydd parcio, Plas Tan y Bwlch a/neu yr Ysgwrn yn methu cyrraedd targedau. Buasai'r gronfa hon yn gymorth i wneud unrhyw ddiffyg yn iawn yn y flwyddyn unigol honno.
14	Cronfa Refeniw Cyffredinol (Balansau)	713,797	Mae disgwyliad i'r Awdurdod gadw arian wrth gefn rhag unrhyw gostau byrfyfyr ac o sylwedd na ragwelwyd.
	Cyfanswm	9,774,237	

EITEM RHIF 8

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	12^{fed} o Orffennaf 2023
TEITL	ADRODDIAD ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2022/23
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb, trosglwyddiadau arian, a'r arian a gariwyd ymlaen o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad.ii. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.iii. Rhoi ystyriaeth i'r perfformiad adrannol gyda golwg ar reolaeth gyllidebol.iv. Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r cronfeydd wrth gefn.

1. CYD-DESTUN

- 1.1 Mae sefyllfa ariannol derfynol y gwasanaethau am 2022/23 yn cadarnhau fod yr Awdurdod wedi llwyddo i gadw o fewn y cyfyngiadau ariannol gyda than-wariant net o £486,655, (gweler Atodiad 2). Mae'r gwarged yma yn deillio yn bennaf o log banc ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ogystal â grantiau ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 1.2 Mae'r Awdurdod yn anelu i gwblhau ac awdurdodi'r datganiad cyfrifon o fewn yr amserlen estynedig a awgrymir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gan fod sefyllfa cyfrifon 2021/22 yn parhau heb ei ddatrys mae'r Awdurdod mewn cyswllt cyson ag Archwilio Cymru. Mae yna hyblygrwydd o fewn yr amserlen gan fod Archwilio Cymru wedi nodi na fydd yr adnoddau ganddynt i gychwyn yr archwiliad tan ddiwedd y flwyddyn galendr. Gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2022/23 (a throsglwyddiadau ariannol perthnasol), fel rhan o'r drefn cynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol (sydd i'w hardystio gan y Prif Swyddog Cyllid, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod).
- 1.3 Dylid nodi y gall rhai ffigyrau yn yr adroddiad hwn gael eu haddasu yn ystod y drefn o gau'r cyfrifon a bod yr holl ffigyrau yn ddarostyngedig i archwiliad. Nid oes terfyn amser penodol wedi ei osod ond bydd yr Awdurdod yn anelu i lunio cyfrifon drafft erbyn Gorffennaf 31. Adroddir ymhellach i'r Awdurdod ar unrhyw addasiadau sylweddol a wneir yn y datganiad o gyfrifon ac yn dilyn cwblhau'r archwiliad arnynt.

2 GRANTIAU A DDERBYNIWYD YN 2022/23

- 2.1 Ym mis Mawrth 2023, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o ddarpariaeth grant ychwanegol i'r Awdurdod am gyfanswm o £200,570 yn cynnwys £156,000 o gyfalaf a £44,570 o refeniw. Roedd telerau'r grant ychwanegol yn caniatáu gwariant ar brosiectau yn cynnwys rhai o gynlluniau presennol yr Awdurdod. Golygai hyn fod modd nodi arbediad o fewn y gwasanaethau perthnasol sydd wedi cyfrannu at y tanwariant cyffredinol. Yn ddiweddarach yn y mis derbyniwyd hysbysiad pellach o daliad o £27,128 o arian refeniw ychwanegol di-amod.
- 2.2 Yn ogystal â'r grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru bu'r hawliad cyntaf am arian T.C.LI.C 2022/23 - 2024/25 yn llwyddiannus, a hynny am gyfanswm o £800,000. Mae'r arian yma yn cynnwys elfennau cyfalaf yn o gystal â refeniw ar ffurf gyfradd o arian ar gyfer gweinyddu'r grantiau a chyfraniad tuag at amser staff i gyflawni'r gwaith. Yn ychwanegol derbyniwyd arian pellach T.C.LI.C ar gyfer prosiect grant ar y cyd â phartneriaid eraill gan arwain at incwm o £150,000 i'r Awdurdod yn 2022/23.
- 2.3 Yn ystod y flwyddyn cytunwyd ar gynllun tair mlynedd ar y cyd rhwng Parciau Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun werth £200,000 i'r Awdurdod gyda hawliad llwyddiannus yn ystod 2022/23 er mwyn ariannu Swyddog Adfer Natur a Dal a Storio Carbon o fewn yr Awdurdod.
- 2.4 Bu cais llwyddiannus hefyd am grant o £65,000 ar gyfer prosiect bioamrywiaeth BMW. Ni dderbyniwyd y grant tan Chwefror ac mae'r gwaith wedi ei raglennu ar gyfer 2023/24. O ganlyniad mae'r arian wedi ei gyfrifo fel grant a dderbyniwyd o flaen llaw ar gyfer 2023/24.
- 2.5 Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd y taliad grant olaf ond un ar gyfer cynllun Coedwigoedd Celtaidd LIFE. Yn ogystal â'r taliadau arferol gan y cyd gyllidwyr eraill roedd y taliad yma am £991,859. Gan fod y prosiect nawr yn parhau tan yr hydref 2027, mae cyfran o'r taliad yma eisoes wedi ei neilltuo tuag at ariannu'r cynllun tan y diwedd ynghyd â grantiau blaenorol sydd hefyd wedi eu trosglwyddo i gronfeydd. Adroddwyd i'r Awdurdod eisoes bod risg y bydd angen i'r Awdurdod fenthycu arian dros dro hyd nes daw'r taliad grant terfynol.

3. AMLINELLIAD O SEFYLLFA DERFYNOL Y CYFRIFON

- 3.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cymhariaeth, ar lefel maes gwasanaeth, rhwng y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar eu cyfer, a'r gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer 2022/23
- 3.2 Cyfanswm gwariant net y flwyddyn oedd £5,130,603 sef £1,686,973 o dan y gyllideb net ddiwygiedig o £6,817,576. Mae'r trosglwyddiadau i'r gyllideb Cyfalaf a awgrymwyd yn niwedariad cyllideb Mawrth wedi eu diystyru er mwyn rhoi adlewyrchiad cywir o'r cyfraniad ychwanegol sydd angen o'r cronfeydd wrth gefn wrth gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Roedd y trosglwyddiadau a awgrymwyd yn Mawrth yn cynrychioli trosglwyddiadau a fuasai eu hangen ar gyfer y rhagamcan gwariant. Mae atodiad 3 yn nodi y trosglwyddiadau angenrheidiol yn seiliedig ar y sefyllfa alldro presennol. Cyfanswm y gwariant cyfalaf gros ar gyfer y flwyddyn oedd £1,652,579 (Atodiad 5).

- 3.3 Roedd £1,686,973 o arian yn weddill cyn trosglwyddiadau net gwerth £738,799 i gronfeydd penodol wrth gefn, a llithriadau ac ymrwymïadau (i 2023/24) o rai o ddyraniadau cyllideb 2022/23 gwerth £461,519. Mae hyn yn dod â'r balans sy'n weddill ar gael i'w ail-glustnodi i **£486,655**.

4. CRYNODEB REFENIW TERFYNOL 2022/23

Maes Gwasanaeth	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosgl	Cyllideb Net Ddiwygiedid	Gwir Wariant	Dan/(Dros)
	£	£	£	£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,595,967	182,842	1,778,809	1,255,155	523,654
Corfforaethol	4,738,275	354,296	5,092,571	4,459,953	632,618
Balansau	259,467	- 259,467	-		-
Llog a Ennillwyd	- 8,000	-	- 8,000	- 135,654	127,654
Ariannu Cyfalaf o refeniw	398,620	146,626	545,246	142,199	403,047
Addasiad taliadau cyfalaf	- 591,050		- 591,050	- 591,050	
CYFANSWM	6,393,279	424,297	6,817,576	5,130,603	1,686,973

4.1 Cyllideb Net ar gyfer 2022/23

Mae'r awdurdod eisoes wedi ei hysbysu o'r cynnydd yn y gyllideb refeniw sylfaenol net.

Yn Atodiad 1, ceir manylion pellach ynghylch y trosglwyddiadau adroddwyd amdanynt i'r Awdurdod ym Mawrth a'r rhai sydd wedi'u gweithredu ers hynny.

4.2 Trosglwyddiadau o ac i Gronfeydd Wrth Gefn a Chostau penodol Eraill

Mae balans o £1,686,973 cyn trosglwyddiadau o ac i'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir crynodeb o'r dadansoddiad o'r trosglwyddiadau yn y tabl isod, ynghyd â chostau penodol eraill, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2022/23			1,686,973
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir	336,295		
Corfforaethol	307,790	644,085	
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir	-742,860		
Corfforaethol	-640,024	-1,382,884	-738,799
Llithriant a Chostau Eraill (gweler Atodiad 4)	-461,519		-461,519
Balans ar gael i'w ailddyrannu			486,655

4.3 Aildro Adrannol

Pennwyd trosglwyddiadau hanfodol o ac i gronfeydd wrth gefn o fewn rhaglenni penodol neu wedi'u neilltuo ym mhwynt 4.2 eisoes.

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa pob lefel cyfarwyddiaeth ar ôl cymryd yr eitemau wedi'u neilltuo a'r rhai penodol a ddygwyd ymlaen o fewn cyllideb 2021/22 i ystyriaeth:

Maes Gwasanaeth	Cyllideb Net Ddiwygiedig	Gwir Wariant	Dan/ (Dros)	Ymrwymiad	Dan/(Dros)
	£	£	£	£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,778,809	1,255,155	523,654	390,531	133,123
Corfforaethol	5,092,571	4,459,953	632,618	406,741	225,878
Balansau	-	-	-	-	-
	6,871,380	5,715,108	1,156,272	797,272	359,001
Llog a Ennillwyd	- 8,000	- 135,654	127,654		127,654
Cyllido Cyfalaf o Refeniw	545,246	142,199	403,047	403,047	-
Addasiad taliadau cyfalaf	- 591,050	- 591,050	-		
CYFANSWM	6,817,576	5,130,603	1,686,973	1,200,319	486,655

Cyfanswm yr incwm ychwanegol a'r tanwariant, ar ôl cymryd i ystyriaeth y trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn, oedd **£486,655**.

4.4 Dadansoddiad Manwl

Mae dadansoddiad manylach fesul gwasanaeth o'r gwariant a'r ymrwymadau ar gyfer 2022/23 yn Atodiad 2.

4.5 Amrywiadau Sylweddol

Mae nifer o amrywiadau yn cael eu ariannu o warged gwasanaethau eraill sydd o dan reolaeth y penaethiaid gan gynnwys y defnydd o warged parcio ar gyfer gorwariant ar wasanaethau megis Cyfleusterau Ymwelwyr, Casglu Sbwriel a'r gwasanaeth Eiddo Corfforaethol. Yn dilyn neilltuo arian at y ddiben yma ymhelaethir ar yr amrywiadau dros £10,000 o fewn y gwasanaethau isod sy'n cyfrannu at y cyfanswm o £486,655.

Cadwraeth Coed ac Amaeth – £133,962 o danwariant. Bu gwariant ar nifer o brosiectau grant lle roedd angen symud y gwariant yn erbyn gwasanaethau/grantiau penodol gan adael gwaged o fewn y gwasanaeth. Mae'r arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi cyfrannu at bron i £90,000 o danwariant ar gyfer creu gwaged i lithro i 2023/24 a chyfrannu at yr her ariannol. Mae natur rhai o'r prosiectau o fewn y gwasanaethau yma yn golygu bod ansicrwydd o ran argaeledd grantiau ac hawliadau grant. Mae'n bosib fydd gwaged un flwyddyn yn dueddol o fod ei angen ar gyfer cyfarch sefyllfaoedd o'r fath mewn blynyddoedd canlynol lle mae diffyg yn cael ei adnabod.

Canolfannau Gwybodaeth – Gorwariant o £11,286 o ganlyniad i ddryswch o ran anfonebau trethi gan Gyngor Conwy sydd wedi golygu gwariant ychwanegol o dros £8k. Roedd swm cyffelyb yn dangos fel tanwariant yng nghyfrifon 2021/22. Mae costau ynni ychwanegol hefyd wedi cyfrannu at y diffyg.

Cyfieithu - £16,258 o dan-wariant yn deillio o ddefnydd cyfieithwyr allanol.

Plas Tan y Bwlch – £13,230 o or-wariant. Mae'r prif or-wariannau ar gyflogaeth, costau ynni ac archebu nwyddau/bwydydd. Fodd bynnag mae'r sefyllfa bresennol yn llawer fwy calonogol na'r sefyllfa adroddwyd arno fel rhagamcan ym mis Mawrth. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol yn yr incwm o ganlyniad i anfonebau nad oedd wedi eu codi ar y pryd. O ganlyniad mae'r incwm ychwanegol wedi cwrdd a rhan helaeth o'r gorwariant.

Meysydd Parcio a Chyfleusterau Ymwelwyr – Roedd yr incwm meysydd parcio a Llyn Tegid yn £185,955 yn fwy na gyllidebwyd ar ei gyfer ond fel sydd wedi ei grybwyll eisoes, mae'r arian yma wedi ei neilltuo at ddiffyg o fewn gwasanaethau eraill o dan gyfarwyddyd y Pennaeth Eiddo. Mae hyn yn cynnwys £124,628 y bwriedir ei gario drosodd i 23/24 ar gyfer gwaith a raglennwyd ym Mhlas Tan y Bwlch a gwaith cynnal a chadw ar eiddo yr awdurdod megis meysydd parcio.

Wardeniaid, Mynediad Cyhoeddus a Thîm yr Wyddfa - Mae tanwariant sylweddol o £166,790 ar draws y gwasanaethau yma. Mae tua £90,000 o wariant wedi ei ariannu gan y grant arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi golygu lleihau'r lefel gwariant yn erbyn y gwasanaethau a chyfrannu at yr arbediad.

Cyfreithiol – Mae tanwariant o £26,421 sydd o ganlyniad i adennill £40,000 mewn costau cyfreithiol yn achos Hillside. Mae cyfran o'r arian dros ben wedi ei neilltuo ar gyfer costau ar system gyfrifiadurol y gwasanaeth am y ddwy flynedd nesaf.

Personél a Hyfforddiant – Deillir tanwariant o £15,473 yn bennaf o ganlyniad i swyddi gwag a thanwariant ar gyllideb hyfforddi staff.

Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau – Mae tanwariant oherwydd swyddi yn wag am gyfnod tra bod staff ar famolaeth. Yn ogystal â hyn, bu tanwariant sylweddol ar gyllideb y gronfa gomisiynu sydd wedi cyfrannu at dros £61,550. Nid yw hyn yn annisgwyl gan fod y gyllideb yma eisoes wedi ei adnabod fel arian gall gyfrannu at yr her ariannol dros y blynyddoedd nesaf.

Cyllid – Gorwariant o £23,907 yn deillio yn bennaf o'r sefyllfa staffio a'r gwaith angenrheidiol o ganlyniad, yn ogystal â phrynu gwasanaeth i mewn ar gyfer cau cyfrifon 2021-22 ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd costau ychwanegol hefyd gan fod y pennaeth ar gyfnod mamolaeth ac angen ariannu pennaeth dros dro.

Llog Banc – Mae'r gwir incwm a dderbyniwyd yn llawer uwch na'r gyllideb o £8,000 a'r rhagolygon blaenorol. Mae hyn yn bennaf gan fod y cyfraddau llog yn parhau yn uchel a chwyddiant ddim yn gostwng ar y gyfradd a ragwelwyd, gan arwain at incwm llog ychwanegol o £127,323.

4.6 Newidiadau ers yr adroddwyd yn flaenorol

Yn yr adroddiad blaenorol ar y gyllideb a roddwyd gerbron yr Awdurdod ym mis Mawrth 2023, nodwyd alldro tebygol o warged o £19,345. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa bresennol, lle gwelir gwarged o £486,655.

Mae nifer o resymau a adroddwyd arnynt yn rhan 4.5 wedi cyfrannu at y gwarged, gyda'r gwahaniaethau sylweddol yn deillio o'r tanwariant yng ngwasanaethau Cadwraeth, Coed ac Amaeth, Mynediad Cyhoeddus a Wardeiniaid, y gronfa gomisiynu, y llog banc ychwanegol a'r incwm ychwanegol ym Mhlas Tan y Bwlch.

Mae'r grantiau ychwanegol a dderbyniwyd o £227,698 bellach wedi eu defnyddio i ariannu gwariant o fewn y gwasanaethau gan gynyddu y swm gwarged o fewn gwasanaethau Cadwraeth Coed ac Amaeth a Mynediad Cyhoeddus a Wardeiniaid. Nid oedd y bwriad yma yn glir pan adroddwyd ar y gyllideb ym mis Mawrth. O ganlyniad mae hyn wedi cyfrannu at warged sydd ar gael i'w neilltuo at yr her ariannol o gyllidebu ar gyfer 2023/24 a 2024/25 gan ystyried setliad grant ac ardoll stond/fflat er gwaetha'r cynnydd mewn costau a chyflogau i'r Awdurdod.

5. ALLDRO CYFALAF 2022/23

5.1 Mae manylion y gyllideb Gyfalaf, alldro a ffynonellau ariannu yn ymddangos yn y crynodeb isod ac Atodiad 5:

	Cyllideb Net	Gwariant	Incwm	Gweddill	Wedi'i Neilltuo	Tan / (Tros)
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheolaeth Tir	425,950	1,030,559	-942,419	337,810	337,815	-5
Corfforaethol	119,296	622,019	-567,960	65,237	65,232	5
Cyfanswm	545,246	1,652,578	-1,510,379	403,047	403,047	0

5.2 Adroddwyd eisoes yn rhan 3.2 fod y trosglwyddiadau Cyfalaf a awgrymwyd yn niweddariad cyllideb Mawrth wedi eu diystyru er mwyn cyflwyno gwybodaeth ar sail y sefyllfa bresennol.

Mae'r gyllideb net ddiwygiedig o £545,246 a'r gwariant net o £142,200 yn gadael £403,047 cyn trosglwyddiadau a llithriant. Fodd bynnag mae'r ffigyrau yma yn cynnwys grantiau T.C.LI.C yn ogystal â'r cynllun T.C.LI.C ar y cyd lle mae £950,000 o incwm wedi ei dderbyn a gwariant o £447,512 yn unig. Mae'r cynlluniau grant hyn yn cynrychioli £502,489 o'r £607,703 sydd wedi eu neilltuo i fynd i'r cronfeydd ar gyfer defnydd yn 2023/24 a thu hwnt. Mae nifer o gynlluniau grant hanesyddol lle na gyllidebwyd ar eu cyfer yn wreiddiol hefyd wedi gweithredu arnynt yn ystod y flwyddyn gyda £369,909 o arian o gronfeydd wrth gefn penodol angen ei drosglwyddo. O'r cynlluniau a gyllidebwyd ar eu cyfer mae £165,253 yn weddill wedi ei glustnodi fel arian i gario drosodd i 23/24.

Mae'r trosglwyddiadau arfaethedig yma i mewn ac o'r cronfeydd ynghyd a'r swm i gario drosodd yn dod i gyfanswm o £403,047.

5.3 Gweler atodiad 5 am fwy o fanylder ynglŷn a'r ffigwr ymrwymedig £403,047.

6. CRONFEYDD WRTH GEFN

- 6.1 Gweler isod grynodedb o'r cronfeydd defnyddiadwy gyda'u balansau cyfredol cyn trosglwyddo'r gwarged o £486,655. Dylid nodi fod cyfran sylweddol o'r isod yn cynrychioli symiau sydd eisoes wedi eu hymrwymo at ddibenion penodol.

Enw'r Gronfa	Balans 31/03/2022	Symudiad	Balans 31/03/2023
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	163,791	-	163,791
Cronfa Adran 106	484,505	112,529	597,034
Cronfa Grantiau Refeniw	1,752,371	(176,947)	1,575,424
Grantiau Cyfalaf dderbyniwyd ymlaen llaw	2,094,437	94,267	2,188,704
Cronfa Rheoli Asedau	918,594	(28,030)	890,564
Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus	225,000	-	225,000
Cronfa Arian Cyfatebol	986,397	(114,141)	872,256
Cronfa Arian Gariwyd Drododd	775,133	51,619	826,752
Cronfa Prosiectau	941,671	16,068	957,739
Cronfa Is-adeiledd yr Wyddfa	56,303	-	56,303
Cronfa Risgiau Penodol	424,160	(40,617)	383,543
Cronfa Gwytnwch Staff	120,000	(5,238)	114,762
Cronfa Risgiau Masnachol	100,000	-	100,000
Cronfa Gyffredinol	719,708	(70,321)	649,387
	9,762,071	(160,811)	9,601,260

6.2 Clustnodi Balans a Tanwariant ac Incwm Ychwanegol

Mae balans o £486,655 o danwariant ac incwm ychwanegol o 2022/23 ar gael i'w ail-glustnodi ar sail un-tro. Argymhellir bod yr incwm ychwanegol sydd yn deillio o'r grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (£227,698) yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd er mwyn cyfrannu tuag at y diffyg yng nghyllideb 2023/24. Roedd y diffyg a nodwyd yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2023/24 yn £778,953 gan gynnwys £459,310 o gyfraniad i'w adnabod. Ar y pryd nid oedd sicrwydd ynglŷn â rhai grantiau nac os fyddai cronfeydd penodol ar gael ar gyfer rhai o'r cynlluniau. Mae disgwyl fydd y diweddariad cyllideb cyntaf ym mis Medi yn darparu gwell darlun o'r sefyllfa a'r diffyg i'w ariannu. Argymhellir bod gweddill yr arian dros ben o 2022/23 yn cael ei neilltuo mewn cronfeydd at y diben yma am y tro gyda'r swm angenrheidiol i'w drosglwyddo i gyllideb 2023/24 a'r gweddill i'w gadw wrth gefn at y diffyg yn 2024/25. Yr argymhelliad yw rhannu y gwarged yma rhwng Cronfeydd Risgiau Penodol - £160,000, Gwytnwch Staff - £160,000 a'r Gronfa Gyffredinol (balansau) - £166,655.

6.3 Dadansoddiad o'r Cronfeydd

Isod mae dadansoddiad o'r prif symudiadau o fewn y cronfeydd. Gweler Atodiad 6 am ddisgrifiad a phwrpas pob cronfa.

Cronfa Adran 106

Bu cynnydd o £112,529 yn y gronfa yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd £74,594 mewn symiau cymudo a dyfarnwyd un grant 'Prynu Tŷ Cyntaf' drwy Gyngor Conwy am £14,024. Yn ychwanegol derbyniwyd £52,320 gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer cynlluniau penodol i'w rheoli dros y pum mlynedd nesaf gan y gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.

Cronfa Grantiau Refeniw

Mae'r gronfa hon yn dal balans grantiau refeniw sydd heb eu defnyddio, derbyniwyd yn y flwyddyn ariannol ac yn cael eu hadnabod fel incwm yn y flwyddyn ariannol honno, ond eu trosglwyddo i gronfa ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Bu gostyngiad net o £176,947 yn ystod y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Cyfalaf

Mae'r gronfa hon wedi ei chreu ar yr un cysail a'r Gronfa Grantiau Refeniw. Yn ystod 2022/23 defnyddiwyd a derbyniwyd grantiau yn golygu cynnydd net o £94,267 yn y gronfa.

Cronfa Rheoli Asedau

Bu gostyngiad o £28,030 yn y Gronfa yn ystod 2022/23.

Cronfa Arian Gyfatebol

Yn ystod y flwyddyn bu defnydd ac ychwanegu yn golygu gostyngiad net o £114,141.

Cronfa Gwynwch Staff

Defnyddiwyd £5,328 o'r gronfa yma yn ystod 2022/23. Byddai'r trosglwyddiad a argymhellir uchod yn ychwanegu £160,000 i'r gronfa yma.

Cronfa Risgiau Penodol

Mae gostyngiad net o £40,617 yn y gronfa yma yn dilyn gwariant 2022/23. Byddai'r trosglwyddiad a argymhellir uchod yn ychwanegu £160,000 i'r gronfa yma.

Cronfa Arian Gariwyd Drosodd

Trosglwyddwyd £409,900 o'r gronfa yma ar gyfer ei ddefnyddio yn 2022/23. Mae cynnydd o £461,519 yn seiliedig ar yr argymhelliad uchod a fyddai'n gadael cynnydd net o £51,619 ar gyfer 2022/23. Gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion.

Balansau Cyffredinol

Trosglwyddwyd £70,321 o'r gronfa yma ar gyfer ei ddefnyddio yn 2022/23. Byddai'r trosglwyddiad o £166,655 a argymhellir uchod ar gyfer y gwarged yn golygu cynnydd net o £96,334 yn y Gronfa yma.

7. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD

7.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth dros £30,000 rhwng cyllidebau, fel a ganlyn :

Swm	Cymeradwyaeth y Trosglwyddiad
£30,000 - £100,000	Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd. Trosglwyddiad i'w adrodd i'r Awdurdod nesaf er gwybodaeth yn unig.
£100,000 neu fwy	Penderfyniad Awdurdod

7.2 Bu un trosglwyddiad ers yr adroddiad diwethaf ar gyfer ariannu gwariant Cyfalaf ar gerbydau i'r gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth. Trosglwyddwyd £35,409 o gyllideb referniw y gwasanaeth gan fod tanwariant sylweddol.

8. ARGYMHELLION

- 8.1 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel sydd wedi ei amlinellu yn rhan 4 (manylion yn Atodiad 1) .**
- 8.2 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac ohonynt fel yr amlinellwyd yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
- 8.3 Nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol (paragraff 4.3 i 4.6 ac Atodiad 2)**
- 8.4 Cymeradwyo'r llithriadau ac ymrwymadau (£461,519) sy'n Atodiad 4.**
- 8.5 Nodi bydd tanwariant y flwyddyn ariannol 2022/23 yn cynyddu'r Balansau Cyffredinol, y Gronfa Gwytnwch Staff a'r Gronfa Risgiau Penodol.**
- 8.6 Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar 31 Mawrth 2023

	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl. cynt £	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR				
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	407,680	41,245 -	35,410	413,515
Awyr Dywyll		-		-
Mawndir Cymru		-		-
Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain)	110,000	-		110,000
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	93,677	3,650		97,327
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	32,200 -	4,300		27,900
Archeoleg	62,710	19,417		82,127
Treftadaeth Diwylliannol	73,560	10,525		84,085
Treftadaeth Treflun Dolgellau	22,930	630	11,740	35,300
Cynllun Harlech ac Ardudwy	51,560	710		52,270
Ysgwrn	90,280	18,732		109,012
Cynllunio	651,370	115,903		767,273
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	1,595,967	206,512 -	23,670	1,778,809
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	112,510	-		112,510
Cefnogaeth yr Awdurdod	87,710	4,803		92,513
Rheolaeth Gorfforaethol	607,280	5,871		613,151
Eiddo	238,731	8,423		247,154
Cyfreithiol	54,510	2,861		57,371
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	207,010	12,761		219,771
Cyfieithu	103,740	3,422		107,162
Personel a Hyfforddiant	110,200	5,482		115,682
Pencadlys	221,310	1,465		222,775
Systemau Gwybodaeth	342,280	16,373	11,765	370,418
Cyllid	209,780	14,773		224,553
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	382,230	17,644		399,874
Ymgysylltu	464,890	85,674		550,564
Safle Gwe Newydd	46,880	860		47,740
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	3,189,061	180,412	11,765	3,381,238

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar 31 Mawrth 2023

	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl. cynt £	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR	1,595,967	206,512 -	23,670	1,778,809
CORFFORAETHOL	3,189,061	180,412	11,765	3,381,238
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant LI.C.)	21,520	400		21,920
Llwybrau Llesiant (grant LI.C.)	40,000	-		40,000
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	258,020	56,647		314,667
Canolfannau Gwybodaeth	120,140	29,535		149,675
Llyn Tegid -	28,280	480	-	27,800
Meysydd Parcio -	460,510	7,733 -	2,210 -	454,987
Clirio Ysbwriel	19,510	-		19,510
Traffig a Chludiant	5,000	-		5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	292,720	-		292,720
Mynediad Cyhoeddus	160,410	11,791		172,201
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddw	1,120,684	57,743		1,178,427
	4,738,275	344,741	9,555	5,092,571
BALANSAU				
Darpariaeth chwyddiant cyffredinoll	15,000 -	15,000		
Darpariaeth chwyddiant cyflogau	244,467 -	244,467		
	259,467 -	259,467	-	-
	6,593,709	291,786 -	14,115	6,871,380
CYFANSWM				
Llog a Enillwyd -	8,000		-	8,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	398,620	132,511	14,115	545,246
Addasiad Taliadau Cyfalaf -	591,050		-	591,050
	6,393,279	424,297	-	6,817,576
WEDI EI ARIANNU O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262			1,373,262
Tros. o'r cronfeydd wrth gefn	900,228	424,297		1,324,525
Cyllideb Net	6,393,279	424,297	-	6,817,576

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sefyllfa Refeniw Derfynol 2022-23 ar 31 Mawrth 2023

	Cyllideb Net ddiwygiedig	Gwir Wariant	Wedi'i Neilltuo	Gwariant O dan/ (Trosodd)
	£	£	£	£
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR				
Cadwraeth Coed & Amaeth	413,515	216,532	63,021	133,962
LIFE - Corsydd Crynedig	-	593	-	593
SMS - Dinas Mawddwy	-	10,177	10,177	-
RMMAMG*	-	66,175	66,175	-
Ysgwrn	109,012	162,709	53,697	-
Awyr Dywyll	-	-	-	-
CGANaLI*	-	-	-	-
Mawndir Cymru	-	19,327	4,270	15,057
Mawndiroedd (Grant CNC)	-	15,840	783	15,057
Ymylon Eryri	-	246	-	246
Grid Cenedlaethol Maentwrog (Dwyrain)	110,000	-	110,000	-
Grid Cenedlaethol Maentwrog (Gorllewin)	-	2,320	2,320	-
LIFE-CoedwigCeltaidd	97,327	184,069	86,742	-
Treftadaeth Diwylliannol	84,085	66,497	17,588	-
Treftadaeth Dolgellau	35,300	41,726	6,426	-
Harlech ac Arudwy	52,270	36,342	15,928	-
Archeoleg	82,127	52,908	29,219	-
Cynllunio	767,273	558,311	208,962	-
Carneddau	27,900	5,767	22,133	-
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	1,778,809	1,255,155	390,531	133,123
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	112,510	119,882	-	7,372
Cefnogaeth yr Awdurdod	92,513	95,100	-	2,587
Rheolaeth Corfforaethol	613,151	572,685	38,870	1,596
Eiddo	247,154	272,654	5,582	31,082
Cyfreithiol	57,371	18,950	12,000	26,421
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	219,771	210,309	93	9,369
Cyfieithu	107,162	90,904	-	16,258
Personel a Hyfforddiant	115,682	100,209	-	15,473
Pencadlys	222,775	223,306	456	987
Systemau Gwybodaeth	370,418	392,219	21,801	-
Cyllid	224,553	254,370	5,910	23,907
Plas Tan y Bwlch	399,874	413,104	-	13,230
Ymgysylltu	550,564	538,267	29,508	17,211
Safle Gwe Newydd	47,740	63,566	15,826	-
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant L.I.C.)	21,920	35,816	13,896	-
Llwybrau Llesiant (Grant L.I.C.)	40,000	8,188	31,812	-
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	314,667	136,172	116,944	61,551
Canolfannau Gwybodaeth	149,675	160,962	-	11,287
Llyn Tegid	27,800	108,145	4,866	75,479
Meysydd Parcio	454,987	560,598	103,582	2,029

Partneriaeth Yr Wyddfa	-	7,263	-	7,263	-
Casglu Sbwriel	19,510	47,577	-	-	28,067
Traffig a Chludiant	5,000	-	-	-	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	292,720	299,308	11,770	-	18,358
Mynediad Cyhoeddus	172,201	84,574	-	-	87,627
Tim Y Wyddfa	338,214	269,400	-	-	68,814
Wardeniaid - Cyffredinol	273,456	249,385	100,904	-	76,833
Wardeniaid - Gogledd	293,035	210,033	15,050	-	67,952
Wardeniaid - De	273,722	254,493	-	-	19,229
	5,092,571	4,459,953	406,741		225,878

BALANSAU

	-	-	-	-
	6,871,380	5,715,108	797,272	359,001

CYFANSWM

Llog a Enillwyd	-	8,000	-	135,654	127,654
Cyllido Cyfalaf o Refeniw		545,246		142,199	403,047
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-	591,050	-	591,050	-
		6,817,576		5,130,603	1,200,319
					486,655

WEDI'I ARIANNU O

Grant y Parc Cenedlaethol	4,119,789
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,373,262
Defnydd o gronfeydd wrth gefn	1,324,525
Cyllideb Net Ddiwygiedig	6,817,576

RMMAMG - Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig
CGANaLI - Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant

Atodiad 3

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2022/23			1,686,973
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Yr Ysgwrn	56,854		
Mawndiroedd Cymru	4,270		
Maentwrog (Gorllewin) Grid Cenedlaethol	2,320		
LIFE - Coedwigoedd Celtaidd	139,610		
Cynllun Treftadaeth Dolgellau	6,426		
	<hr/>	209,480	
Adfywio Harlech (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	12,526		
Bioamrywiaeth (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	3,418		
Ardaloedd Cadwraeth (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	14,968		
Coetir Hynafol (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	350		
Awyr Dywyll (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	83,661		
Prosiect Ty Natur	811		
	<hr/>	115,734	
Corfforaethol			
Safle Gwe Newydd	15,826		
Ymgysylltu Pobl Ifanc (Grant Refeniw LI.C)	13,896		
Partneriaeth Yr Wyddfa (Grant Refeniw LI.C)	7,263		
Systemau Gwybodaeth	21,801		
Cyllid (Ariannu Staff Ychwanegol)	5,910		
	<hr/>	64,696	
Uwchraddio Toiledau	23,000		
Toiledau Morfa Mawddach	22,000		
Prosiectau Mynediad	809		
Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	1,707		
Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	176		
Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan (Grant Cyfalaf LI. Cymru a Grant T.C.LI.C)	6,408		
Safle Gwe (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	17,390		
Hafod Eryri (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	6,000		
Betws y Coed (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	10,469		
Bwch Brithdir (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	651		
Dathlu 70 (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	3,200		
Crafnant/Capel Curig (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	11,081		
Nant Gwynant (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	4,725		
Cader Idris (Grantiau Cyfalaf Amrywiol - BMC, CNC a LI. Cymru)	75,701		
TG (Grantiau Cyfalaf T.C.LI.C)	30,166		
Dadcarboneiddio (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	20,666		
Brithdir - Cylchdaith (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	16,789		
Canolfan Wybodaeth Betws y Coed (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	3,237		
	<hr/>	254,175	
			644,085
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Treftadaeth Diwylliannol			
LiDAR (Grant Cyfalaf LI.C)	15,630		
Llwybrau Carneddau (Grant LI.C)	31,865		

Natur Eryri (Grant T.C.LL.C)	107,790	
Terfynnau Traddodiadol (Grant T.C.LI.C ar y cyd)	46,438	
	<hr/>	201,723
Maentwrog (Dwyrain) Grid Cenedlaethol	110,000	
LIFE - Coedwigoedd Celtaidd	52,868	
SMS Dinas Mawddwy	10,177	
Mawndiroedd (Grant CNC)	783	
Cadwraeth Coed ac Amaeth	52,320	
Archeoleg (Cyfraniad at Carneddau)	17,719	
Carneddau	22,133	
RMMAMG (Grant LI.C)	66,175	
Rheolaeth Datblygu (Cronfa Adran 106)	74,234	
